

Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2025-2026





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027


Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Mae adroddiad y flwyddyn hon yn dangos bod
systemau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae
yn cyflawni llawer o ganlyniadau cadarnhaol, ond eu
bod dan bwysau parhaus.

Gweithgarwch allweddol



Beth sy'n digwydd ar draws y system

- **Mae ansawdd yn gryf ar y cyfan.** Mewn gwasanaethau oedolion a chartrefi gofal plant, roedd 90% o'r graddau yn dda neu'n rhagorol. Ym maes gofal plant a chwarae, roedd 80% o'r graddau yn dda neu'n rhagorol. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn darparu gofal diogel, tosturiol ac effeithiol.
- **Mae ffurf darpariaeth yn newid.** Mae cymorth cartref, cartrefi gofal plant a gofal dydd llawn yn parhau i dyfu, ond mae rhai gwasanaethau cartref gofal, gwarchod plant a gofal plant sesiynol yn lleihau. Mae capasiti yn cael ei gynnal i raddau helaeth, ond nid bob amser ar ffurf y gofal a'r gofal plant sydd eu hangen fwyaf ar bobl a theuluoedd.
- **Mae gwasanaethau'n gwella, ond mae mannau lle ceir pwysau o hyd.** Lle gwnaethom nodi gofal gwael, arweinyddiaeth a rheolaeth oedd y gwendid mwyaf cyffredin o hyd, a hynny'n aml yn gysylltiedig â staffio, llywodraethu, goruchwyliaeth, cofnodion, diogelu a meddyginiaeth.
- **Mae awdurdodau lleol yn dangos arferion cryf, ond mae cysondeb yn amrywio.** Gwelsom ddulliau ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar hawliau, ond mae amseroldeb asesiadau, cyfathrebu ynghylch diogelu, digonolrwydd lleoliadau a chapasiti'r gweithlu yn parhau i fod yn anghyson ledled Cymru.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Y prif negeseuon

- **Ni ellir cymryd gofal da yn ganiataol.** Mae angen rhoi sylw parhaus i hanfodion gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel (arweinyddiaeth, staffio, llywodraethu, cyfathrebu a diogelu).
- **Mae cefnogi plant ag anghenion cymhleth yn parhau i roi pwysau mawr ar y system.** Mae mwy o gartrefi a lleoedd plant wedi cael eu cofrestru, ond mae awdurdodau lleol yn dal i'w chael hi'n anodd sicrhau'r lleoliadau cywir.
- **Mae angen newid sylweddol mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.** Gellir gweld cynnydd, ond mae'n anghyson. Mae angen i ormod o wasanaethau symud o ewyllys da i Gynnig Rhagweithiol dibynadwy o hyd, yn enwedig ym maes gofal plant a chwarae.

Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn cyfeirio at sector sydd â chryfderau gwirioneddol a straen sylweddol. Yr her ar gyfer 2026-2027 yw amddiffyn a lledaenu arferion da gan fynd i'r afael â'r gwendidau sy'n peri risg i ganlyniadau pobl ar yr un pryd: arweinyddiaeth anghyson, capasiti bregus ymhlith y gweithlu, bylchau mewn darpariaeth leol, arferion diogelu amrywiol a mynediad anghyson at ofal a chymorth yn Gymraeg.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd



Fel Prif Arolygydd, rwy'n gweld bob dydd pa mor bwysig yw gofal i bobl, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Nid systemau haniaethol yw gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae; maent yn rhan o gartrefi, cydberthnasau ac arferion pobl, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Maent yn helpu pobl i gadw mewn cysylltiad, aros yn annibynnol, teimlo'n ddiogel, a chymryd rhan yn y bywydau y maent yn eu dewis. Dyna pam fy mod yn teimlo cyfrifoldeb mor gryf i sicrhau bod hawliau, lleisiau a llesiant pobl wrth wraidd ein gwaith yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).



Mae'r flwyddyn hon wedi fy atgoffa eto o'r ymroddiad, y sgiliau a'r caredigrwydd a ddangosir ym mhob rhan o'r sector gofal. Mae'r gwasanaethau niferus sy'n darparu canlyniadau da a rhagorol yn galonogol, ynghyd â'r adborth gan bobl sy'n dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel, a bod staff yn gwrando arnynt ac yn gofalu amdanynt. Y tu ôl i bob canfyddiad arolygu a phob gradd, mae person y mae ei brofiad yn bwysig. Rwyf am i'r adroddiad hwn adlewyrchu'r stori ddynol honno, yn ogystal â'r dystiolaeth a'r data sy'n sail i'n dyfarniadau.

Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol na ellir cymryd gofal da yn ganiataol. Mae pwysau ar y gweithlu, anghenion cynyddol gymhleth a heriau yn y system ehangach yn parhau i roi straen wirioneddol ar wasanaethau. Mewn rhai ardaloedd, mae pobl yn aros yn rhy hir neu'n cael profiad anghyson o'r cymorth a gânt. Nid pwysau gweithredol yn unig yw'r rhain; maent yn effeithio ar fywydau, dewisiadau a hyder pobl. Maent yn cryfhau fy marn bod arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau llywodraethu cryf a ffocws diflino ar ganlyniadau yn hanfodol.

Roedd yn bleser gennyf lansio ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030, a luniwyd yn seiliedig ar ein huchelgeisiau, sef Sicrhau, Gwella a Dylanwadu. Mae'r uchelgeisiau hyn yn fwy na blaenoriaethau sefydliadol i mi. Maent yn disgrifio'r ffordd rwyf eisiau i AGC weithio: rhoi sicrwydd clir i'r cyhoedd lle mae ymarfer yn gryf, bod yn onest ac yn uniongyrchol lle mae angen gwella, a defnyddio ein gwybodaeth er mwyn helpu i ysgogi newid cadarnhaol ledled Cymru.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Rhaid i weithgarwch rheoleiddio fod yn gadarn, yn deg ac yn annibynnol, ond rhaid iddo fod yn ddynol hefyd. Mae'r cydberthnasau rydym yn eu meithrin â phobl, darparwyr a phartneriaid yn bwysig. Maent yn ein helpu i ddeall risg yn gynharach, herio'n fwy effeithiol a nodi ymarfer sy'n haeddu cael ei rannu. Rwyf am i'n harolygwyr gael yr amser, yr adnoddau a'r hyder i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf: profiad bywyd pobl sy'n cael gofal a chymorth.

Rwyf yn falch o arwain tîm mor ymroddedig a phroffesiynol o staff y mae eu gwaith yn ymgorffori ein gwerthoedd bob dydd.

Gan edrych tua'r dyfodol, rwy'n gwybod y bydd ansicrwydd a her yn parhau dros y flwyddyn nesaf. Ond rwyf hefyd yn gweld ymrwymiad, creadigrwydd a thosturi ym mhob rhan o'r sector bob dydd. Bydd AGC yn parhau i sefyll ochr yn ochr â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau drwy wrando'n ofalus, gweithredu'n gymesur, dathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda a herio'r hyn sydd angen ei wella. Fy ymrwymiad yw y byddwn yn parhau i sicrhau bod hawliau, lleisiau a llesiant pobl wrth wraidd popeth a wnawn.



Gillian Baranski

Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Trosolwg o'n sefydliad

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru. Rydym yn cofrestru,
yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a
diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
Rydym yn cyfrannu at wella gofal ar lefel unigol,
ar lefel gwasanaeth, ac ar lefel sector.

Gwasanaethau a gaiff eu cofrestru a'u harolygu gennym:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd
- Ysgolion arbennig preswyl

Rydym hefyd yn arolygu'r canlynol:

- Ysgolion preswyl
- Colegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr
o dan 18 oed
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu
awdurdodau lleol



Rydym yn adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol
yn cefnogi ac yn cyflawni eu swyddogaethau
gwasanaethau cymdeithasol drwy amrywiaeth o
weithgareddau adolygu perfformiad, gan gynnwys
arolygu. Ein nod yw cydweithio ag awdurdodau lleol
i'w helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd craidd yn sicrhau bod pobl
yn aros wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn
ymrwymedig i ddangos y gwerthoedd hyn yn ein
gwaith bob dydd:



Ein hegwyddorion arweiniol

Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain yr egwyddorion sy'n
llywio'r ffordd rydym yn gweithio:



Rhoi pobl yn gyntaf



Gweithredu ar sail gwybodaeth



Bod yn ymatebol ac yn seiliedig ar risg



Cydweithio



Cefnogi gwelliannau ac arloesi



Myfyrion a dysgu

Darllenwch fwy am [ein gwerthoedd a'n hegwyddorion
arweiniol ar wefan AGC.](#)



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ym mis Ebrill 2025, gwnaethom gyhoeddi [Cynllun
Strategol 2025–2030](#) sy'n nodi tri uchelgais craidd:



Sicrhau



Gwella



Dylanwadu

Mae'r gweithgarwch rydym wedi ymgymryd ag ef
mewn perthynas â phob un o'r uchelgeisiau hyn wedi
cael ei blethu drwy'r adroddiad hwn. Dyma grynoded
o'n gweithgarwch hyd yn hyn.



Sicrhau: Rhoi sicrwydd am ganlyniadau i bobl

Y flwyddyn hon gwnaethom gofrestru 381 o
wasanaethau, cynnal 2,209 o arolygiadau, ymateb i
2,726 o bryderon ac ymdrin â 44,832 o hysbysiadau.
Gwnaethom gynnal 269 o arolygiadau o ganlyniad
uniongyrchol i bryderon a rannwyd â ni.

Mae ein gwaith gyda phob un o'r 22 o awdurdodau
lleol wedi cyflawni rhaglen gynhwysfawr o
weithgarwch sicrwydd, arolygu (mewn 18 o
awdurdodau lleol) ac ymgysylltu ar draws
gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant.

Rydym wedi gwella ansawdd ein hadroddiadau a'u
gwneud yn fwy hygyrch, gan gynnwys templedi
adroddiadau diwygiedig sy'n cyd-fynd â chyflwyno

graddau, ac rydym yn treialu'r defnydd o
ddeallusrwydd artiffisial i symleiddio ein gwaith a
gwella ei werth fel adnodd ar gyfer gwella.

Rydym hefyd wedi atgyfnerthu'r ffordd rydym yn
cefnogi darparwyr a phartneriaid, gan gynnwys
datblygu opsiynau cyngor newydd i wella ansawdd
ceisiadau cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac
Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA), ac
ystyried gwahanol fodelau sicrwydd i lywio'r ffordd y
byddwn yn gweithio yn y dyfodol.

Roedd hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a
chynhwysiant yn rhan ganolog o'n gwaith sicrwydd eto
y flwyddyn hon. Rydym yn rhoi ein cynllun gweithredu
ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar
waith, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a
grŵp cyfeirio o arbenigwyr i hyrwyddo diwyllianau
cynhwysol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac
arweinyddiaeth sy'n herio achosion o wahaniaethu.
Mae hyn yn gysylltiedig â'n gwaith ar y cyd ar
ddiwyllianau cadarnhaol. Gwnaethom gryfhau
gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
mewn dogfennau cofrestru a thempledi datganiadau o
ddiben, gwella hygyrchedd drwy arolygon hawdd eu
deall, cefnogi cyfleoedd dysgu i staff, a hyrwyddo
ymarfer cynhwysol drwy ein gweithgarwch arolygu a
gwella, gan rannu arferion da ar draws gwasanaethau.

Darllenwch am [sut mae cylch chwarae yn dathlu
amrywiaeth a threftadaeth pob plentyn.](#)



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Rydym yn monitro'n agos unrhyw bryderon a gaiff eu rhannu â ni am wahaniaethu. Y flwyddyn hon, cawsom 48 o bryderon yn ymwneud â gwahaniaethu ynghylch gwasanaethau cofrestredig i oedolion a phlant. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ffocws parhaus a gweladwy ar ymarfer cyfartal, amrywiol a chynhwysol ym mhob gwasanaeth.



Gwella: Annog, cynorthwyo, herio ac ysbrydoli gwasanaethau, a ni ein hunain, i wella'n barhaus

Er nad asiantaeth wella yw AGC, mae gennym rôl benodol yn cefnogi gwelliant ym maes gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae. Gallwch ddarllen am y [ffordd rydym yn ymdrin â gwelliant ar wefan AGC](#).

Ein swyddogaethau craidd: cofrestru, arolygu, adolygu perfformiad a gorfodi, ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau unigol. Rydym hefyd mewn sefyllfa unigryw i gael trosolwg cenedlaethol, gan nodi themâu a thueddiadau i gefnogi ac annog ym mhob rhan o'r sector. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth geisio ysgogi gwelliant ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r ffordd rydym yn cofnodi ac yn defnyddio profiadau pobl drwy arolygon gwell.

Rydym wedi ehangu'r ffordd rydym yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da, gan gynnwys cyhoeddi 'ymarfer gwerth ei rannu', cynnal cynhadledd ansawdd genedlaethol ac ymgorffori dulliau o sicrhau

diwylliannau sefydliadol cadarnhaol mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae, gwnaethom gyhoeddi [Gwersi o ymarfer gwerth ei rannu - gofal plant a chwarae](#).

Gan adeiladu ar ein profiad o ddyfarnu graddau ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae, rydym wedi cryfhau ein rôl wrth geisio ysgogi gwelliant a chysondeb drwy gyhoeddi graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Mae ein fframwaith arolygu diwygiedig wedi cefnogi gwasanaethau i ddeall beth yw 'rhagorol' a 'da' yn ymarferol, gan helpu i osod disgwyliadau clir a chefnogi gwelliant parhaus. Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau cychwynnol '[Graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref - saith mis yn ddiweddarach](#)'.

Y flwyddyn hon, gwnaethom nodi 672 o Feysydd i'w Gwella (o gymharu â 727 o feysydd y flwyddyn ddiwethaf) yn y 375 o wasanaethau y gwnaethom eu harolygu. Gwnaethom hefyd gyhoeddi 246 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth i 119 o wasanaethau. Defnyddir y rhain pan fydd angen gweithredu ar unwaith i ddiogelu diogelwch neu lesiant pobl (gwnaethom gyhoeddi 247 y flwyddyn ddiwethaf).

Dim ond 22 o feysydd i'w gwella y bu'n rhaid i ni eu huwchgysgu i statws gweithredu â blaenoriaeth oherwydd diffyg cynnydd. Roedd nifer y gwasanaethau a atgyfeiriwyd at ein paneli gorfodi



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

er mwyn ystyried cymryd camau gweithredu pellach yn isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae ein ffocws ar welliant yn ei chael ar bobl.

Rydym hefyd wedi cryfhau ein rôl wella gydag awdurdodau lleol drwy negeseuon cliriach, gweithgarwch dilynol, ac olrhain themâu yn systematig. Y flwyddyn hon, mae ein gwaith wedi cefnogi gwelliannau ledled Cymru yn uniongyrchol, a chydabuwyd 33 o enghreifftiau o arferion cadarnhaol yn ein hadroddiadau arolygu awdurdodau lleol. Drwy dynnu sylw at yr enghreifftiau hyn, rydym yn annog awdurdodau lleol i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chefnogi gwelliant ehangach ar draws y system.

Rydym wedi ystyried sut y gallwn hyrwyddo llesiant ein staff a'r bobl rydym yn eu harolygu, gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwelliannau digidol hefyd yn cefnogi ymgysylltiad mwy effeithlon ag AGC a gwybodaeth well i bobl sy'n dewis gwasanaethau.



Dylanwadu: Bod yn adnabyddus a dibynadwy, gan rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd unigryw er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

Gwnaethom gryfhau ein dylanwad cenedlaethol y flwyddyn hon drwy rannu gwybodaeth â'n partneriaid, cyhoeddi adroddiadau cliriach sy'n seiliedig ar dystiolaeth, tynnu sylw at risgiau sy'n dod i'r amlwg yn

gynharach, a hyrwyddo dysgu ar draws y sector. Gwnaethom gyfrannu at Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr, gan gynnwys lleisiau gofalwyr di-dâl yn fwy cyson yn ein gwaith gydag awdurdodau lleol a rhannu ein canfyddiadau. Buom hefyd yn gweithio gyda Thîm Polisi Gofal Plant Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio ein gwybodaeth unigryw i gyfrannu at y gwaith o adolygu a datblygu'r dull gweithredu mewn perthynas â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar, diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, ac ymgynghoriadau ar y Gorchymyn Eithriadau a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, a rhoi Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025 ar waith.

Rydym wedi datblygu dull mwy strwythuredig a chydweithredol o weithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gweithio ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Rydym hefyd yn cryfhau'r ffordd rydym yn rhannu data a gwybodaeth â phartneriaid. Er enghraifft, drwy gydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn lleihau achosion o ddwyblygu ac yn gwella gwybodaeth ar draws y system drwy gasglu data ar weithluoedd gwasanaethau oedolion a phlant cofrestredig fel rhan o'r datganiad blynyddol.

Ym mis Mehefin 2025, gwnaethom weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gyhoeddi'r canllaw [Cefnogi Diwyllianau Cadarnhaol](#) ym maes gofal cymdeithasol. Nid drwy hap a damwain y ceir diwyllianau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau. Maent yn gofyn am arweinyddiaeth gyson, prosesau gwneud penderfyniadau hyderus,



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

cyfathrebu da, a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.
Dyna pam ein bod yn ymgorffori'r egwyddorion hyn
drwy ein holl waith, ac rydym wedi lansio cynllun
peilot i gydlunio dull gweithredu ymarferol, sy'n
seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn helpu arweinwyr i
ymgorffori, cryfhau a mesur diwylliannau cadarnhaol
yn eu lleoliadau gofal.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i fuddsoddi
yng ngalluogrwydd y gweithlu, gan gynnwys diogelu,
cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a
chapasiti mewn perthynas â'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r flwyddyn gyntaf wedi
canolbwyntio ar adeiladu'r systemau, y galluogrwydd
a'r partneriaethau sydd eu hangen i sicrhau gwelliant
parhaus, gyda chynnydd clir o ran cydlynu ein
gweithgarwch rheoleiddio, cryfhau ein heffaith a
chynyddu ein dylanwad.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ymgysylltu â phobl

Mae ymgysylltu â phobl wrth wraidd ein huchelgais i ddylanwadu. Rydym am fod yn fwy gweladwy er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth rydym yn ei wneud a gyda beth y gallwn helpu, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal ac yn gweithio ynddynt.

Ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol

Mae ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o'r sectorau gofal plant, gofal cymdeithasol a gwirfoddol, yn ogystal â gofawyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio. Mae ei aelodau'n darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae. Mae'r Bwrdd yn ein helpu i osod ein blaenoriaethau strategol, yn goruchwyllo ein gwaith ac yn cynnig her feirniadol, ac mae'n monitro ein perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith hefyd.

Sut y cefnogodd mewnbwn y Bwrdd waith AGC



Myfyrdodau gan Dr Ruth Hussey
CBE OBE DL, Cadeirydd y Bwrdd
Cyngori Cenedlaethol.

Nododd trafodaethau'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol y flwyddyn hon y prif bwysau a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gofal plant yng

Nghymru. Mae arsylwadau'r Bwrdd wedi helpu AGC i fyfyrion ar yr hyn a glywyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, darparwyr a phartneriaid, a thrwy hynny gryfhau'r ffordd y mae'n mynd ati i reoleiddio, gwella ac ymgysylltu. Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd y Bwrdd at ystod eang o waith AGC.

- **Cryfhau dealltwriaeth o risg a mannau lle ceir pwysau:** atgyfnerthodd mewnbwn y Bwrdd lle gallai pwysau ar y gweithlu, pwysau o ran galw a phwysau ariannol effeithio ar ddiogelwch pobl a pharhad gofal, gan helpu AGC i roi ffocws ar ei weithgarwch sicrwydd a chymryd camau dilynol mewn perthynas â risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- **Llywio'r dull rheoleiddio:** cefnogodd trafodaethau'r ffocws ar arolygiadau dirybudd a datblygiad parhaus y ffordd y mae AGC yn casglu ac yn defnyddio adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid.
- **Cefnogi ceisiadau cymesur am wybodaeth:** helpodd adborth ar faich datganiadau blynyddol i ail-lunio gwaith gyda phartneriaid, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, er mwyn lleihau achosion o ddyblygu a symleiddio'r datganiadau blynyddol o 2026.
- **Helpu AGC i baratoi ar gyfer graddau RISCA:** tynnodd y Bwrdd sylw at yr hyn y byddai ei angen ar ddarparwyr a'r cyhoedd er mwyn i'r broses weithredu fod yn glir ac yn gyson, gan gynnwys cyngori ar ganllawiau, hyfforddiant a chyfathrebu hygrych.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

- **Llywio gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu:** helpodd arsylwadau AGC i ganolbwyntio ar wybodaeth gliriach i'r cyhoedd, rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da, ac ehangu ymgysylltiad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r sector gofal.
- **Gwella'r ffordd y caiff canlyniadau eu cyfleu:** rhoddodd y Bwrdd gyngor ar sut i wneud gohebiaeth a chanlyniadau terfynol yn gliriach ar ddiwedd prosesau pryderon a chwynion, gan gynnwys ffocws cryfach ar iaith glir.
- **Cefnogi gwaith partneriaeth a gwella systemau:** tynnodd trafodaethau sylw at bwysigrwydd sicrhau cysondeb â phrosesau monitro a chomisiynu awdurdodau lleol, a gwnaethant gefnogi ein hymrwymiad i rannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid.
- **Llywio datblygiad sefydliadol:** cynghorodd ar ddefnyddio mesurau a dangosyddion i olrhain cyflawniad, nodi gwelliannau cynnar, cryfhau ymgysylltiad, a chyfleu annibyniaeth a rôl AGC yn glir.
- **Nodi blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg:** ystyriodd y Bwrdd faterion blaengar, gan gynnwys goblygiadau deallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau rheoleiddiedig a phwysigrwydd sicrhau bod capasiti a chynrychiolaeth ein Bwrdd Cynghori yn adlewyrchu anghenion Cymru.

Hoffwn ddiolch i Gillian Baranski a'i thîm arwain sy'n parhau i weithio gyda'r Bwrdd Cynghori mewn ffordd agored ac addysgiadol. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cyfrannu at ystod eang o safbwyntiau a phrofiad gyda her adeiladol a pherthnasol. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniad.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd y Bwrdd yn parhau i roi adborth amserol ar faterion sy'n dod i'r amlwg, cynghori ar systemau a phrosesau a helpu i gadw ffocws ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl sy'n defnyddio gofal a'u teuluoedd.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol


Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, aelodau o'u teulu, staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn arbennig. Rydym yn defnyddio hyn i gynllunio ein harolygiadau a llywio ein dyfarniadau ynghylch pa mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Rydym bob amser yn siarad â phobl yn ystod arolygiadau i ddeall eu profiadau, ac rydym yn croesawu adborth ar unrhyw adeg gan deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Dyma rai enghreifftiau o'r adborth a ddaeth i law:



Am warchodwr plant: “Mae Gwarchodwr Plant D yn warchodwr plant gofalgarg, cefnogol ac ymarferol i fy nau blentyn. Mae ganddynt gydberthynas gref gyda hi, sy'n seiliedig ar flynyddoedd o ymddiriedaeth a gofal. Rwy'n ymddiried ynddi'n llwyr ac mae gwybod eu bod mewn dwylo diogel bob dydd yn rhoi tawelwch meddwl i mi. Mae'n mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau gyda gweithgareddau ac yn defnyddio strategaethau effeithiol i oresgyn heriau.”

Am wasanaeth cymorth cartref: “Roeddwn yn bryderus iawn ynghylch cael pobl ddieithr yn fy nghartref i fy helpu, ond rwyf wedi bod mor gyfforddus a diogel yn eu cwmni. Byddai'n braf pe bawn i wedi derbyn cymorth fisoedd yn ôl.”

Am gartref gofal: “Mae'r gofal, y cymorth a'r cyfathrebu gan y tîm yn anhygoel. Mae popeth yn gweithio'n dda. Maen nhw'n mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau bob amser.”

Gan staff: “Mae'r rheolwyr yn hawdd iawn mynd atynt ac yn delio â phroblemau'n gyflym. Maent yn gefnogol iawn ac yn rhoi cyngor da pan fo angen. Maent yn gwrandao ar y staff ac yn ystyried eu barn. Mae dealltwriaeth y gall y swydd hon beri straen emosiynol, ac rwy'n teimlo bod gofal gwirioneddol o fewn y tîm pan fydd rhywun yn cael diwrnod anodd. Mae'r cymorth hwnnw yn gwneud gwahaniaeth mawr.”

Am grŵp gofaluwr: “Pan fydd pethau'n mynd yn ormod, byddwn yn troi at y bobl yn y grwpiau hyn gyntaf yn aml. Mae'r mathau hyn o grwpiau yn darparu cymorth ond maent hefyd yn cyfeirio unigolion at y gwasanaethau cymdeithasol cywir a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnynt.”





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ymgysylltu â darparwyr

Gwnaethom gynnal chwe digwyddiad i ddarparwyr a fynychwyd gan 720 o ddarparwyr a roddodd sgôr gyfartalog o 4.5 allan o 5 i ni ar gyfer y sesiynau hyn. Rydym yn anfon bwletinâu misol at fwy na 6,000 o ddarparwyr gwasanaethau oedolion, plant a gofal plant a chwarae. Rydym wrthi'n cynnal archwiliad o'n bwletinâu i ddarparwyr er mwyn annog mwy o dderbynwyr i ymgysylltu â'r cynnwys.

Gweithio gyda phartneriaid

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ychwanegu gwerth ac osgoi achosion o ddyblygu. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau ar y cyd o rai lleoliadau gofal plant gydag Estyn, ac o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae [cytundeb strategol rhwng partneriaid Arolygu Cymru](#) (AGC, Estyn, AGIC ac Archwilio Cymru) yn nodi sut rydym yn cydweithio. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, a chydlynw ein rhaglenni gwaith unigol.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â rheoleiddwyr y DU ac Iwerddon i drafod materion o ddiddordeb cyffredin. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal yr Alban, ac Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) Gogledd Iwerddon.

Buom yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd, sy'n gyfrifol am reoleiddio'r proffesiwn

gofal cymdeithasol ac arwain gwelliant ym maes gofal cymdeithasol ledled Cymru. Gwnaethom gydweithio i hyrwyddo dulliau rhannu gwybodaeth a chasglu data am y gweithlu, yn enwedig o ran diogelu ac addasrwydd pobl i ymarfer. Gwnaethom hefyd gyfrannu at weithgarwch gwella gan gynnwys llesiant y gweithlu a'r gymuned ymarfer ar gyfer unigolion cyfrifol gwasanaethau gofal.

Partner cymharol newydd i ni yw Llais, sy'n gyfrifol am ddeall safbwyntiau pobl a'u profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â gwneud yn siŵr bod eu hadborth yn cael ei ddefnyddio gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i lywio gwasanaethau. Mae gennym [Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng AGC a Llais](#) erbyn hyn i lywio ein cydberthynas waith a'n galluogi i gydweithio er mwyn hyrwyddo gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel.

Rydym wedi parhau i ymgorffori ein rhaglen arolygwyr cymheiriaid ar gyfer ein gwaith gydag awdurdodau lleol. Mae hyn wedi cryfhau manylder ac ansawdd gwaith arolygu drwy rannu ymarfer ac arbenigedd o'r byd go iawn.

Y flwyddyn hon, gwnaethom weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu ac adnewyddu ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr er mwyn canfod sut yr hoffent i ni ymgysylltu â nhw. Byddwn yn cyhoeddi'r strategaeth newydd ym mis Mehefin 2026.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Mae cael gwasanaeth yn Gymraeg yn hawl, nid yn ddewis ychwanegol. Mae hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn golygu creu'r amgylchedd cywir lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn hyderus y caiff eu hanghenion eu diwallu. Mae gan bawb sy'n darparu gwasanaethau gofal ledled Cymru gyfrifoldeb i ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' i siaradwyr Cymraeg. Hyd yn oed os na fydd gwasanaeth yn cefnogi pobl sy'n dymuno siarad Cymraeg, mae'n bwysig cydnabod hunaniaeth a diwylliant Cymreig pobl.

Y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio mwy ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ein gweithgarwch arolygu. Rydym bellach yn asesu a yw gwasanaethau'n cynnig gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol, gan wneud y Gymraeg yn rhan gliriach o ofal sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn ein galluogi i adrodd ar ein canfyddiadau.

Yr hyn a nodwyd gennym

Mae tystiolaeth yn dangos cynnydd ar draws sectorau, ond mae ymarfer yn parhau i fod yn anghyson, yn aml oherwydd pwysau ar y gweithlu a dealltwriaeth amrywiol o'r Cynnig Rhagweithiol.

Gwelsom wasanaethau yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ymarferol a gwelsom enghreifftiau cryf o wasanaethau'n cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol ac yn adlewyrchu iaith a hunaniaeth

wrth gynllunio gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn gyson ledled Cymru eto.

Tabl 1: Asesiad o wasanaethau a arolygwyd mewn perthynas â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, 2025 i 2026

	Mae'r darparwr yn hyrwyddo, yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion pobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru.	Mae'r darparwr yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu mae'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog.	Nid yw'r darparwr yn hyrwyddo anghenion y bobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n rhaid gwella hyn.
Gwasanaethau Oedolion (895)	255 (28.5%)	432 (48.3%)	208 (23.2%)
Gwasanaethau plant (217)	40 (18.4%)	96 (44.3%)	81 (37.3%)
Gofal plant a chwarae (579)	114 (19.7%)	140 (24.2%)	325 (56.1%)

Gwnaethom ganfod hefyd fod angen gwella'r Cynnig Rhagweithiol o hyd mewn mwy na hanner ein harolygiadau o awdurdodau lleol.

Beth rydym yn ei wneud

Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cryfhau ein dull gweithredu drwy gynnwys a diweddarau ein canllawiau ar gyfer arolygwyr a darparwyr, ac wedi



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

**Hyrwyddo'r Gymraeg
a diwylliant Cymru**

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

parhau i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, i hyrwyddo gwelliant i gefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Rydym wedi rhoi mwy o sylw i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ein hadroddiadau arolygu ac wedi gwella ein cyfeiriadur gwasanaethau fel y gall pobl chwilio am wasanaethau gofal plant yn ôl iaith weithredu. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chyrff yn y sector ac rydym yn bwriadu tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael yn y digwyddiadau i ddarparwyr y flwyddyn nesaf, gan gynnwys [Cynllun Addewid Cymraeg Cwllwm](#).

Ymarfer gwerth ei rannu

Roedd gwarchodwr plant yn Llanelli yn dymuno cryfhau sgiliau dwyieithog cynnar plant a meithrin hyder wrth ddefnyddio Cymraeg syml. Cyflwynodd drefn wythnosol sy'n cysylltu dysgu yn ei lleoliad â dysgu gartref. Mae pob plentyn yn mynd â llyfr ac un gair Cymraeg syml adref i'w rhannu â'i deulu. Mae'r rhieni'n darllen y llyfr gyda'u plentyn ac yn ymarfer y gair gyda'i gilydd. Mae'r plant yn mynd yn ôl at y geiriau yn ystod yr wythnos gyda'r gwarchodwr plant, gan eu defnyddio mewn caneuon, straeon a sgysiau. Gallwch [ddarllen mwy am y ffordd y mae'r gwarchodwr plant dan sylw yn meithrin sgiliau dwyieithog](#) ar wefan AGC.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant



**Mae'r bennod hon yn amlinellu ein
gweithgareddau craidd wrth roi sicrwydd
a chefnogi gwelliant ar draws y sectorau
canlynol:**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant a chwarae



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gofal cymdeithasol i oedolion

Proffil gwasanaethau cofrestredig

**Tabl 2: Gwasanaethau gofal oedolion cofrestredig
yng Nghymru ar 31 Mawrth 2026**

Math o wasanaeth	Gwasanaethau	Lleoedd
Cartrefi gofal (heb ofal nyrsio)	787	13,213
Cartref gofal â gofal nyrsio	248	11,931
Gwasanaethau cymorth cartref	785	-
Gwasanaethau lleoli oedolion	8	-

**Troednodyn: Nid yw AGC yn cadw data ar leoedd ar
gyfer cymorth cartref na gwasanaethau lleoli oedolion.**

Cartrefi gofal

Roedd cartrefi gofal yng Nghymru yn darparu cymorth
i 23,667 o oedolion ar 31 Mawrth 2026 (data o
ddatganiadau blynyddol a gyflwynwyd i AGC ar gyfer
2025 i 2026). Roedd y gyfradd defnydd yn 91% ar
gyfer cartrefi gofal â gofal nyrsio ac yn 89.1% ar gyfer
cartrefi gofal (gofal personol).

Gwnaethom gofrestru deg gwasanaeth cartref gofal â
gofal nyrsio y flwyddyn hon, a chanslodd naw
gwasanaeth eu cofrestriad. Fodd bynnag, parhaodd y
mwyafrif i weithredu, gan eu bod wedi cofrestru â
darparwr newydd. Gwnaethom hefyd gofrestru 34 o
gartrefi gofal heb ofal nyrsio y flwyddyn hon, ynghyd



â chanslo 19 o gofrestriadau. Eto, parhaodd y rhan
fwyaf o'r cartrefi hyn i weithredu ar ôl cofrestru â
darparwr gwahanol. Mae'r ffaith bod llawer o
wasanaethau wedi parhau i weithredu gyda darparwr
gwahanol yn gadarnhaol i bobl sy'n byw yn y cartrefi.

Ar y cyfan, ar 31 Mawrth 2026, roedd un cartref gofal i
oedolion â nyrsio yn fwy na'r un adeg y flwyddyn
ddiwethaf, ac roedd 16 yn fwy o gartrefi gofal i
oedolion heb ofal nyrsio.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol


Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn


Tuedd deg mlynedd mewn cartrefi gofal i oedolion

**Graff 1 a 2: Gwasanaethau a lleoedd cartrefi gofal i
oedolion – â gofal nyrsio, 2016 i 2026**

**Graff 1: Cyfanswm nifer y gwasanaethau cartrefi
gofal i oedolion yng Nghymru – â gofal nyrsio**




**Graff 2: Cyfanswm nifer y lleoedd mewn cartrefi
gofal i oedolion yng Nghymru – â gofal nyrsio**




**Graff 3 a 4: Gwasanaethau a lleoedd cartrefi gofal i
oedolion – heb ofal nyrsio, 2016 i 2026**

**Graff 3: Cyfanswm nifer y gwasanaethau cartrefi
gofal i oedolion yng Nghymru – heb ofal nyrsio**



**Graff 4: Cyfanswm nifer y lleoedd mewn cartrefi
gofal i oedolion yng Nghymru – heb ofal nyrsio**





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ar y cyfan, mae ein data yn awgrymu sector cartrefi gofal sy'n gymharol sefydlog yn y tymor byr, ond sy'n parhau i newid o ran cyfansoddiad dros y tymor hwy. Mae nifer y cartrefi gofal i oedolion â gofal nyrsio wedi gostwng dros y degawd, o 267 i 248, ond mae nifer y lleoedd nyrsio wedi cynyddu 389. Mae hyn yn awgrymu bod gwasanaethau wedi cael eu cyfuno'n gartrefi nyrsio mwy neu fod capasiti cofrestredig gwasanaethau wedi newid, yn hytrach na gostyngiad syml yn y ddarpariaeth.

I'r gwrthwyneb, mae cartrefi gofal heb ofal nyrsio wedi lleihau o ran nifer a capasiti, gan ostwng o 842 i 787 o wasanaethau ac o 14,070 i 13,213 o leoedd. Mae hyn yn cyfeirio at ostyngiad graddol yn y ddarpariaeth cartrefi gofal personol, sy'n gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach o gefnogi mwy o bobl i fyw gartref a'r twf mewn gwasanaethau cymorth cartref.

Fodd bynnag, mae cyfraddau defnydd uchel yn awgrymu bod galw parhaus a bod capasiti dros ben yn gyfyngedig. Mae'r sefyllfa ddiweddar o un flwyddyn i'r llall yn fwy cadarnhaol, gydag un cartref nyrsio ychwanegol ac 16 yn fwy o gartrefi gofal heb ofal nyrsio o gymharu â mis Mawrth 2025, sy'n awgrymu rhywfaint o sefydlogrwydd byrdymor ar ôl cyfnod hwy o gwtogi.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau cymorth cartref

Mae gwasanaethau cymorth cartref yn darparu gofal i nifer sylweddol o bobl ledled Cymru. Yn ôl ein datganiadau blynyddol diweddaraf, roedd 34,491 o bobl yn cael gwasanaethau cymorth cartref ar 31 Mawrth 2026, gyda bron 100,000 o bobl yn cael cymorth yn ystod y flwyddyn.

Mae nifer y gwasanaethau wedi parhau i gynyddu, gan gynyddu 35 (4.7%) y flwyddyn hon i 785 a oedd yn gweithredu ar 31 Mawrth 2026. Gwnaethom gofrestru 78 o wasanaethau, o gymharu ag 87 y flwyddyn ddiwethaf, a gwnaethom ymdrin â'r broses o ganslo 43 o wasanaethau (o gymharu â 32). Roedd llawer o'r achosion o ganslo am nad oedd y gwasanaeth wedi gweithredu yn yr ardal ers cofrestru. Rhoddodd gwasanaethau eraill y gorau i weithredu am nad oeddent yn ariannol hyfyw mwyach neu ni allent sicrhau pecynnau gofal i'w galluogi i weithredu. Gwnaeth saith ailgofrestru â darparwr newydd.

Gall hyn fod yn dangos bod gormod o wasanaethau gofal cartref mewn rhai ardaloedd ac effaith barhaus hyn ar y farchnad, fel y disgrifiwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2024-2025.


Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch ansawdd gwael rhai ceisiadau gan ddarparwyr sydd am weithredu gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru. Y flwyddyn hon, cafodd 40 o geisiadau i gofrestru gwasanaeth cymorth cartref eu tynnu'n ôl gan y darpar ddarparwr. Rydym yn priodoli hyn i'r

ffaith y cyflwynwyd cam brysbennu ar ddechrau'r broses gofrestru sy'n tynnu sylw at fannau lle mae problemau o ran ansawdd y cais ac yn egluro'r disgwyliadau a'r dyletswyddau statudol a roddir ar unigolion cyfrifol a darparwyr gwasanaethau i weithredu yng Nghymru.

Tuedd deg mlynedd mewn gwasanaethau cymorth cartref

Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd mewn gwasanaethau cymorth cartref bob blwyddyn dros y degawd diwethaf.

Graff 5: Gwasanaethau cymorth cartref yng Nghymru, 2016 i 2026





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Sicrwydd a gwellia

Ymateb i bryderon

Mae pryderon a godir gyda ni yn cynnig gwybodaeth bwysig am ble y gall fod risgiau i ddiogelwch neu lesiant pobl. Mae'n gadarnhaol bod pobl yn teimlo y gallant rannu eu pryderon â ni. Rydym yn ystyried pob pryder ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i benderfynu pryd i arolygu a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt yn ystod ein harolygiadau. Ein cam cyntaf yw asesu'r risgiau y mae'r pryder yn eu peri ac ystyried unrhyw beth rydym eisoes yn ei wybod am y gwasanaeth. Rydym bob amser yn blaenoriaethu ac yn ymateb yn gyflym lle gall pobl fod yn wynebu risg neu fod wedi dioddef niwed.

Y flwyddyn hon cawsom 1,690 o bryderon gan gynnwys 1,143 am gartrefi gofal a 545 am wasanaethau cymorth cartref. Mae hyn yn gynydd o 13.7% ers y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys 478 o bryderon a godwyd gan staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref (cynydd o 367 ers y flwyddyn ddiwethaf). Mae pobl yn bryderus am faterion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth gwasanaeth yn bennaf (1,109 o bryderon), sy'n adlewyrchu'r hyn rydym yn ei ganfod yn ein harolygiadau.

Caiff y camau gweithredu rydym yn eu hystyried eu hamlinellu isod ac mae'r ffigurau'n dangos ein penderfyniadau yn ystod 2025/26 (mae rhai pryderon yn arwain at fwy nag un cam gweithredu):

651

Cadw cofnod o'r materion a godwyd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf.

583

Gofyn i'r gwasanaeth ymchwilio i'r materion a rannwyd a rhoi gwybod i ni am y canlyniad er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf.

168

Gwneud atgyfeiriad brys at dîm diogelu'r awdurdod lleol neu at yr heddlu.

149

Cynnal arolygiad brys.

128

Rhannu'r wybodaeth ag awdurdodau eraill a chydlynu camau â nhw yn ôl yr angen.

111

Cyfeirio pobl at asiantaeth arall sydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

30

Os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, awgrymu y dylent wneud cwyn uniongyrchol i'r gwasanaeth.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Adolygu hysbysiadau

Mae rheoliadau'n nodi'r hyn sy'n rhaid i ddarparwyr ein hysbysu amdano ac mae'r hysbysiadau hyn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd mewn gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau am newidiadau i'r gwasanaeth, damweiniau neu anafiadau difrifol, ceisiadau i amddifadu rhywun o'i ryddid, marwolaeth person sy'n byw mewn cartref gofal a honiadau o gam-drin.

Rydym yn cael nifer mawr o hysbysiadau (27,324 y flwyddyn hon) a gall fod angen i ni weithredu ar rai ohonynt tra bo eraill er gwybodaeth yn unig yn bennaf. Rydym yn adolygu hysbysiadau yn erbyn yr hyn rydym eisoes yn ei wybod am wasanaeth ac rydym yn effro i unrhyw dueddiadau lle y gall fod angen cymryd camau dilynol neu ofyn am wybodaeth bellach gan y darparwr.

Y flwyddyn hon, cawsom 3,921 o hysbysiadau am honiadau o gam-drin, a gwnaethom ystyried pob un yn ofalus. Yn aml, roedd y rhain yn ymwneud â digwyddiadau nad ydynt wedi'u nodi mewn rheoliadau ac nad oeddent yn cyrraedd trothwyon diogelu awdurdodau lleol, er enghraifft achos o gwmpo neu feddyginiaeth na chafodd ei rhoi. O ganlyniad, nid oedd angen i ni gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â 97% ohonynt. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn o hysbysiadau diangen, gwnaethom ddechrau gweithio i egluro diffiniadau a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2026.

Gweithgarwch arolygu a chanfyddiadau.

Tabl 3: Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o 2025 i 2026

Math o wasanaeth	Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd
Gwasanaeth cartref gofal i oedolion a phlant	12
Gwasanaeth cartref gofal i oedolion	615
Gwasanaeth lleoli oedolion	1
Gwasanaeth cymorth cartref	324
Cyfanswm	952

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd gennym yn ôl y math o wasanaeth. Gwnaethom arolygu 12 o wasanaethau cartref gofal i oedolion a phlant, 615 o gartrefi gofal i oedolion, 1 gwasanaeth lleoli oedolion a 324 o wasanaethau cymorth cartref.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol

- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc

- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol

- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Tabl 4: Trosolwg o wasanaethau â graddau arolygu cyhoeddedig yn ôl y math o wasanaeth 2025 i 2026

Math o wasanaeth	Rhagorol	Da	Rhaid gwella	Rhaid gwella'n sylweddol
Gwasanaeth Cartref Gofal i Oedolion	477	1,445	136	86
Gwasanaeth Cymorth Cartref	317	478	53	25
Cyfanswm	794	1,923	189	111

Troednodyn: Yn cynnwys cyfanswm nifer y graddau lle mae gwasanaeth wedi cael ei arolygu unwaith neu fwy yn ystod y cyfnod adrodd.

Rydym yn dyfarnu pedair gradd i gartrefi gofal, a thair i wasanaethau cymorth cartref, a'r flwyddyn hon gwnaethom ddyfarnu 3,017 o raddau, gyda 90.1% ohonynt naill ai'n raddau 'da' neu'n raddau 'rhagorol'.

"Nid gradd yw rhagoriaeth. Mae'n cael ei phrofi'n ddyddiol drwy ryngweithiadau ystyrlon, gofal cyson, wedi'i bersonoli, a phreswylwyr sy'n cael eu grymuso i fyw bywydau llawn, cyfoethog." Adroddiad AGC: [Graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref - saith mis yn ddiweddarach](#)

O blith y gwasanaethau y gwnaethom eu harolygu'r flwyddyn hon, dyfarnwyd graddau 'rhagorol' neu raddau 'da' ar draws pob thema arolygu i 681 o wasanaethau (71.5%) gyda dim ond 18 (1.9%) yn cael gradd 'rhaid gwella' neu 'rhaid gwella'n sylweddol' ar draws pob thema.

Dylai pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref fod wedi cael gradd erbyn hydref 2026.

Dyma ychydig o enghreifftiau o'r ymarfer cadarnhaol rydym wedi'i weld y flwyddyn hon.

- [Gwasanaeth byw â chymorth](#) sy'n dangos sut mae'r bobl, eu perthnasau a'r staff yn dathlu cyflawniadau yn ystod cyfarfodydd tŷ a staff wythnosol. Caiff y cyflawniadau hyn eu harddangos yn amlwg ar hysbysfyrddau "Achievement" a "You're the Best" yn y swyddfa ac yn y lleoliadau byw â chymorth i bawb eu gweld. Mae hyn yn ffordd dda o gymell y bobl a'r staff.
- [Cartref gofal](#) sy'n darparu therapïau ategol fel reiki, tyllino pen yn y dull Indiaidd, a drymio mewn amgylchedd tawel i ymlacio pobl. Mae wal goffa â lluniau o bobl sydd wedi marw er mwyn cofio amdanynt a dathlu eu bywydau. Caiff blodau ffres sy'n cael eu tyfu yn y gerddi eu gosod o gwmpas y cartref mewn powlenni dŵr a fasys. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref gofal yn rhan o'r broses o ddewis staff.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

- [Gwasanaeth cysylltu bywydau](#) sy'n cefnogi pobl i
fyw'n weithgar mewn lleoliadau teuluol lle cânt eu
trin â charedigrwydd, tosturi a pharch. Ffocws y
gwasanaeth yw galluogi pobl i fyw bywydau
bodlon, gan feithrin eu hyder a'u hannibyniaeth
wrth fyw gyda theulu mewn amgylchedd
cyfforddus, cartrefol a chyfarwydd.

Ceir rhagor o astudiaethau achos ar ein tudalen we
[‘Ymarfer gwerth ei rannu ym maes gwasanaethau
oedolion a phlant’](#) sy'n ehangu, ac yn ein
hadroddiadau arolygu.

Meysydd i'w gwella

Mae ein canfyddiadau o weithgarwch arolygu, gan
gynnwys ymateb i bryderon, yn dangos risgiau
parhaus mewn perthynas ag arweinyddiaeth a
rheolaeth, staffio, llywodraethu a meddyginiaeth. Mae
hyn yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o
wasanaethau'n darparu canlyniadau da, mae'r sector
yn agored i bwysau gweithredol o hyd, yn enwedig
pan fo trefniadau goruchwyllo gwan, prinder staff neu
systemau meddyginiaeth yn effeithio ar ddiogelwch a
chysondeb y gofal.

Lle gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau,
gwnaeth y rhan fwyaf o wasanaethau y newidiadau
angenrheidiol i wella canlyniadau i bobl. Gwnaethom
arolygu 40 o wasanaethau fwy nag unwaith i sicrhau
bod gwelliannau wedi'u gwneud.

Er enghraifft, cyhoeddwyd Hysbysiadau Gweithredu â
Blaenoriaeth i [gartref gofal](#) yn dilyn arolygiad yn 2021.

Gwnaethom barhau i fonitro'r gwasanaeth yn agos,
sydd wedi ymgymryd â chryn weithgarwch gwella,
gan arwain at ganlyniadau gwell i'r bobl sy'n
defnyddio'r gwasanaeth. Yn ein harolygiad
diweddaraf yn 2026, cafodd bedair gradd 'rhagorol'.
Cafodd y darparwr ei gynnwys yn ein [hadroddiad ar
raddau](#) a bydd yn rhannu ei daith wella yn ein
Cynhadledd Ansawdd gyntaf ym mis Mai 2026.

Arweinyddiaeth a rheolaeth oedd y maes y
gwnaethom nodi amlaf fod angen ei wella o hyd.
Gwnaethom ddyfarnu graddau 'rhaid gwella' neu
'rhaid gwella'n sylweddol' i 113 o wasanaethau ar
gyfer y thema hon, gan nodi 173 o feysydd i'w gwella
a chyhoeddi 69 o Hysbysiadau Gweithredu â
Blaenoriaeth. Gall methiannau yn y maes hwn
effeithio ar bob agwedd ar ofal a chymorth, gan
dansaillio llesiant pobl.

Roedd y prif faterion yn cynnwys y canlynol:

- Trefniadau llywodraethu gwan, gan gynnwys
diffyg goruchwyliaeth gan yr unigolyn cyfrifol,
atebolrwydd aneglur, prosesau sicrhau ansawdd
annigonol, camau dilynol annigonol pan godir
pryderon am y gwasanaeth, a gwasanaethau nad
ydynt yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad
o ddiben
- Diffyg cymorth a chyfleoedd datblygu i staff,
gan gynnwys materion mewn perthynas â
goruchwyllo, arfarnu, hyfforddi a bylchau o ran
cymhwysedd, ynghyd â threfniadau recriwtio a



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

fetio anghyflawn sy'n golygu bod llai o sicrwydd
bod staff yn addas i weithio

- Diffyg staff mewn gwasanaethau sydd â sgiliau
addas ac sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gofal
diogel a chyson
- Cofnodion anghyflawn, anghywir neu gofnodion
nad ydynt yn gyfredol, gan gynnwys adolygiadau
o ansawdd y gofal, sy'n golygu ei bod yn anos
goruchwyllo a gwneud penderfyniadau diogel

Roedd hefyd yn destun pryder gweld mater a oedd
yn dod i'r amlwg mewn perthynas â meddyginiaeth.
Gwnaethom gyhoeddi 12 o Hysbysiadau Gweithredu
â Blaenoriaeth a 15 o Feysydd i'w Gwella eraill. Roedd
y materion yn cynnwys y canlynol:

- Prosesau gwan ar gyfer goruchwyllo ac
archwilio meddyginiaeth
- Systemau storio a rheoli stoc anniogel
- Gwallau gweinyddol ac o ran cofnodi
- Gweithdrefnau meddyginiaeth aneglur neu
weithdrefnau nad oeddent yn gyfredol

Byddwn yn monitro hyn yn agos y flwyddyn nesaf.

Dim ond pedwar gwasanaeth (cartrefi gofal â gofal
nyrsio) a gafodd radd wael mewn perthynas â'r thema
llesiant.

Mae nifer y gwasanaethau lle rydym yn cymryd
camau gweithredu statudol yn isel o hyd. Mae hyn yn
adlewyrchu effaith gweithgarwch arolygu a gorfodi o
ran ysgogi gwelliannau a sicrhau dyfodol
gwasanaethau i'r bobl sy'n dibynnu arnynt i gael gofal
a chymorth. Dim ond naw gwasanaeth cymorth cartref
a 17 o gartrefi gofal a gafodd eu hystyried gan ein
panel gorfodi am na welwyd gwelliant fel y cam nesaf
ar ein llwybr gorfodi. O ganlyniad i hyn, gwnaethom
gyhoeddi naw hysbysiad gorfodi i chwe gwasanaeth i
oedolion, gan gynnwys hysbysiadau gwella i ganslo
gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol oni bai bod
gwelliannau'n cael eu gwneud. Roedd y rhain yn
ymwneud â methiannau sylweddol ym maes
arweinyddiaeth a rheolaeth yn bennaf. Arweiniodd
pedwar o'r rhain at ganslo'r gwasanaeth. Gwnaethom
orfodi amrywiadau er mwyn gosod amodau i liniaru
risgiau i bobl mewn saith gwasanaeth.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol**
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gofal cymdeithasol i oedolion gan awdurdodau lleol



Sicrwydd a gwella

Y flwyddyn hon gwnaethom ymgymryd â
gweithgarwch arolygu yng ngwasanaethau oedolion
wyth awdurdod lleol. Cynhaliwyd tri o'r arolygiadau
hyn ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
(AGIC). Gallwch ddarllen ein [hadroddiadau arolygu ac
adolygu awdurdodau lleol](#) ar wefan AGC.

Arolygiadau AGC:

- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
(archwiliad gwelliant)
- Cyngor Sir Penfro (archwiliad gwelliant)
- Cyngor Sir Ceredigion (archwiliad gwelliant)

Arolygiadau ar y cyd ag AGIC:

Gwnaethom weithio gydag AGIC i adolygu'r gofal a'r
cymorth a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu neu
anghenion iechyd meddwl, mewn partneriaeth â'r
bwrdd iechyd lleol perthnasol:

- Cyngor Abertawe
(tîm iechyd meddwl cymunedol)
- Cyngor Sir Gâr
(tîmau anableddau dysgu cymunedol)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
(tîmau anableddau dysgu cymunedol)

Ymarfer cadarnhaol

Yn ystod ein harolygiadau'r flwyddyn hon, gwelsom
fod llawer o awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd
gwirioneddol o ran rhoi pobl wrth wraidd prosesau
asesu a gofal, ochr yn ochr â meysydd sydd angen
eu gwella o hyd.

Gwelsom dystiolaeth gref o awdurdodau lleol yn
blaenoriaethu llais, dewis a rheolaeth pobl, ac roedd
ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n
seiliedig ar gryfderau wedi'i wreiddio yn y ffordd y caiff
pobl eu hasesu a sut y caiff gofal ei gynllunio. Gwelsom
hyn yn ymarferol mewn sawl awdurdod lleol:

- Yn Sir Fynwy, roedd asesiadau'n cynnwys
gwybodaeth fywgraffyddol fanwl i gofnodi
cryfderau pobl ac adlewyrchu eu hunaniaeth.
- Yn Sir Benfro, mae'r ymarferwyr yn defnyddio
'cipluniau' yn rheolaidd mewn asesiadau ac
adolygiadau i feithrin dealltwriaeth glir o fywydau
pobl a'r hyn sy'n bwysig, gan gefnogi dull sy'n
canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.
- Yng Nghasnewydd, sicrhodd dull a arweinir gan
wrando o'r cyswllt cyntaf fod llais a dewis pobl yn
llywio cymorth o'r cychwyn cyntaf.
- Ym Mlaenau Gwent a Thorfaen, roedd adnoddau
cyfathrebu hygrych yn helpu pobl i gymryd rhan
mewn penderfyniadau am eu gofal.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol**
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwnaethom barhau i ganfod tystiolaeth glir fod gwasanaethau atal, ymyrryd yn gynnar ac ailalluogi yn gwneud gwahaniaeth drwy helpu pobl i gael gafael ar gymorth yn gynharach ac aros yn annibynnol. Er enghraifft, mae dull 'Pwyntiau Siarad' Sir Ddinbych yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth prydlon i bobl heb fod angen atgyfeiriad ffurfiol.

Er gwaethaf y pwysau parhaus, gwelsom dystiolaeth o waith partneriaeth effeithiol, lle roedd gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau lleol eraill yn gwella mynediad a lleihau oedi i bobl. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cydweithio yn Nhorfaen drwy ddull amlasiantaeth, wedi'i gyd-leoli a oedd yn golygu bod modd rhannu gwybodaeth yn gyflymach a chydgyssylltu gofal pobl mewn ffordd gryfach, gan alluogi pobl i gael gafael ar wasanaethau'n brydlon ac yn unol â'u hanghenion.
- 'Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa' yng Ngheredigion, sy'n dod â gwasanaethau ynghyd i helpu pobl i fyw'n annibynnol.
- Fforymau ar y cyd Sir Benfro, lle mae gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn cydweithio i ddod o hyd i atebion i bobl.
- Yn Sir Gaerfyrddin, roedd gwaith ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn ehangu opsiynau byw â chymorth ac yn gwella'r gwaith o

gydgysylltu ôl-ofal i bobl, gan helpu i hyrwyddo annibyniaeth a pharhad cymorth.

Yn y pedwar awdurdod lleol lle gwnaethom gynnal archwiliadau gwelliant, gwelsom fod y gwelliannau a nodwyd gennym wedi cael eu gwneud.

Meysydd i'w gwella

Nododd ein harolygiadau'r flwyddyn hon heriau parhaus o ran amseroldeb asesiadau, adolygiadau a chyswllt cyntaf mewn sawl awdurdod lleol.

Cawsom 146 o bryderon am wasanaethau awdurdodau lleol i oedolion. Rhannwyd pryderon ynghylch y canlynol:

- Ansawdd a dibynadwyedd gofal, gan gynnwys amseroldeb asesiadau a chyfathrebu
- diogelu a hawliau dynol, gan gynnwys materion diogelwch
- addasrwydd neu sefydlogrwydd llety
- sut roedd awdurdodau lleol yn ymdrin â chwynion a phryderon.

Gwelsom fod mynediad at wasanaethau eirioli yn anghyson. Mewn sawl awdurdod lleol, nid oedd gwasanaethau eirioli yn cael eu cynnig, eu hesbonio na'u cofnodi'n glir, sy'n golygu nad oedd rhai pobl o bosibl wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal. Gwelsom anghysondeb o ran y ffordd y mae rhai awdurdodau lleol yn nodi anghenion gofalwyr ac yn



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol**
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

ymateb iddynt. Roedd angen i awdurdodau lleol wella'r ffordd y maent yn cynnig ac yn cofnodi asesiadau gofalwyr, a sicrhau bod rolau ac anghenion gofalwyr yn cael eu hadlewyrchu'n briodol wrth gynllunio asesiadau a chymorth.

Gwnaethom nodi y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i rannu gwybodaeth â phobl a sefydliadau pan gaiff pryderon diogelu eu codi. Dylai pobl gael diweddariadau clir ac amserol am bryderon y maent wedi rhoi gwybod amdanynt, a dylid rhannu'r gwersi a ddysgwyd o achosion diogelu ar draws gwasanaethau.

Mae ôl-groniadau mewn perthynas ag awdurdodi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn parhau i greu risgiau cyfreithiol ac o ran hawliau dynol. Gall pobl sy'n aros am asesiadau gael eu hamddifadu o'u rhyddid heb fynediad amserol at y mesurau diogelu statudol a ddyluniwyd i'w hamddiffyn. Ceir gwybodaeth fanwl am hyn yn ein [hadroddiad monitro blynyddol ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer 2024-2025](#).

Roedd capasiti staff a phwysau wrth recriwtio yn themâu a gododd yn rheolaidd yn ein harolygiadau. Roedd argaeledd cyfyngedig gweithwyr gofal mewn gwasanaethau cymorth cartref yn creu oedi wrth ddarparu gofal a chymorth i rai pobl. Mewn gwasanaethau iechyd meddwl, roedd prinder staff arbenigol, gan gynnwys Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy a meddygon adran 12 (meddygon sydd wedi'u cymeradwyo i wneud

argymhellion o dan gyfraith iechyd meddwl), hefyd yn arwain at oedi wrth gael gafael ar gymorth i rai. Roedd y pwysau hyn yn cael mwy o effaith ar bobl mewn ardaloedd gwledig, lle roedd amseroedd teithio a gweithlu llai o faint yn golygu bod recriwtio a darparu gwasanaethau yn fwy heriol.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Proffil gwasanaethau a reoleiddir gennym ni

Tabl 5: Gwasanaethau plant rheoleiddiedig yng
Nghymru ar 31 Mawrth 2026

Math o wasanaeth	Nifer y gwasanaethau	Nifer y lleoedd
Gwasanaeth cartref gofal i blant	397	1,349
Gwasanaeth maethu	21	-
Gwasanaeth maethu awdurdod lleol	22	-
Gwasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol	5	-
Gwasanaeth mabwysiadu	6	-
Gwasanaeth eirioli	2	-
Gwasanaeth llety diogel	1	14
Canolfan breswyl i deuluoedd	5	87
Gwasanaeth preswyl ysgol arbennig	4	45
Ysgol breswyl	10	1,272
Coleg addysg bellach	3	-

Troednodyn: Mae llinell doriad yn dangos nad yw'r
wybodaeth hon gennym.

Cartrefi gofal i blant

Y flwyddyn hon gwnaethom gofrestru 55 o gartrefi
gofal newydd i blant mewn 20 o'r 22 o siroedd yng
Nghymru (cynnydd o 14.6% ers mis Mawrth 2025),
gan arwain at 125 o leoedd ychwanegol. Mae
awdurdodau lleol bellach yn gweithredu 81 o gartrefi
gofal i blant, sef cynnydd o 24.6% o gymharu â'r
flwyddyn flaenorol (65).

Gwnaeth llai o gartrefi gofal ganslo eu cofrestrriad
y flwyddyn hon, saith o gymharu â 15 y flwyddyn
ddiwethaf. Roedd rhesymau cyffredin dros ganslo yn
cynnwys plentyn mewn cartref meddiannaeth sengl
yn troi'n 18 oed ac yn symud ymlaen neu landlordiaid
eisiau gwerthu eu heiddo.

Mae data o'r [dangosfwrdd datganiadau blynyddol](#) yn
dangos bod 1,057 o blant yn byw mewn cartref gofal
ar 31 Mawrth 2026, gyda chyfradd defnydd o 81.9%
ar gyfartaledd yn ystod 2025-2026.

Mae diffyg gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant
ag anghenion cymhleth o hyd.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Trosglwyddo i fodel nid-er-elw

Y flwyddyn hon, gwnaethom baratoi ar gyfer diwygiadau i [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#), a gyflwynwyd gan [Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2025](#). Mae'r diwygiadau yn cyfyngu ar y broses o wneud elw drwy ofalu am blant sy'n derbyn gofal, a dechreuodd y broses o roi hyn ar waith yn raddol ar 1 Ebrill 2026. Ar ôl 31 Mawrth 2026, dim ond darparwyd cartrefi gofal i blant, gwasanaethau maethu a llety diogel nid-er-elw all wneud cais i gofrestru i weithredu yng Nghymru.

Cyhoeddodd ein tîm cofrestru dudalen we benodol ynghylch [Dileu elw o ofal plant](#) er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau plant i ddeall beth oedd y newidiadau'n ei olygu iddynt.

Cawsom 42 o geisiadau i gofrestru cartrefi gofal i blant yn ystod chwarter olaf 2025-2026, sy'n sylweddol fwy nag yn y naw mis blaenorol gyda'i gilydd (32).

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiadau bob chwe mis ar gynnydd tuag y model nid-er-elw ar gyfer cartrefi gofal i blant. Gallwch ddarllen yr [adroddiadau trosglwyddo ar ddileu elw o ofal plant](#) ar wefan Llywodraeth Cymru.


O 31 Mawrth 2026, caiff 77.5% (308) o'r 397 o gartrefi gofal i blant eu gweithredu gan ddarparwyr er elw, gan ddarparu 1,069 o leoedd, ac mae 280 o leoedd mewn 89 o gartrefi gofal nid-er-elw. O'r cartrefi gofal

nid-er-elw presennol a geir i blant, caiff 91% (81) eu gweithredu gan awdurdodau lleol.

Dros y degawd diwethaf, mae nifer y cartrefi gofal i blant wedi mwy na dyblu (cynnydd o 176%) ac mae nifer y lleoedd wedi cynyddu 112%.

Graff 6: Gwasanaethau a lleoedd cartrefi gofal i blant yng Nghymru, 2016 i 2026

Cyfanswm nifer y gwasanaethau a lleoedd
cartrefi gofal i blant



— Cyfanswm y gwasanaethau — Cyfanswm y lleoedd



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Sicrwydd a gwella

Ymateb i bryderon

Mae pryderon a godir gyda ni yn cynnig gwybodaeth bwysig am ble y gall fod risgiau i ddiogelwch neu lesiant plant. Rydym yn ystyried pob pryder a gaiff ei rannu â ni ac mae'r pryderon hyn yn ein helpu i benderfynu pryd i arolygu a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt. Ein cam cyntaf bob amser yw asesu'r risgiau y mae'r pryder yn eu peri ac ystyried unrhyw beth arall rydym yn ei wybod am y gwasanaeth. Rydym bob amser yn blaenoriaethu ac yn ymateb yn gyflym lle gall pobl fod yn wynebu risg neu wedi profi niwed.

Y flwyddyn hon, cawsom 201 o bryderon am wasanaethau plant rheoleiddiedig, ac roedd 87% ohonynt yn ymwneud â chartrefi gofal. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 95% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, er na allem nodi unrhyw dueddiadau na rhesymau penodol dros hyn, heblaw am y cynnydd yn nifer y gwasanaethau fel y disgrifiwyd uchod. Mae'r ffaith bod pobl yn teimlo y gallant rannu pryderon â ni yn galonogol.

Roedd llawer o'r pryderon (148) yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth ac ansawdd y gofal a'r cymorth (92). Cawsom 33 o bryderon a godwyd gan staff sy'n gweithio mewn gwasanaeth, yr un nifer â'r flwyddyn ddiwethaf bron, a 30 o bryderon a godwyd gan bobl sy'n byw ar yr un stryd â chartref gofal. Mae pobl yn bryderus am faterion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth gwasanaeth yn bennaf

(74% o bryderon o gymharu â 64% y flwyddyn ddiwethaf). Gwnaethom asesu mai dim ond 13 o bryderon yr oedd angen i ni eu harolygu ar unwaith ac, ar gyfer 49% o'r pryderon, gwnaethom ofyn i ddarparwr y gwasanaeth ymchwilio a gweithredu yn ôl yr angen, gan roi gwybod i ni am y canlyniad.

Caiff y camau gweithredu rydym yn eu hystyried eu hamlinellu isod ac mae'r ffigurau'n dangos ein penderfyniadau yn ystod 2025 i 2026 (mae rhai pryderon yn arwain at fwy nag un cam gweithredu):

99

Gofyn i'r gwasanaeth ymchwilio i'r materion a rannwyd a rhoi gwybod i ni am y canlyniad er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf

75

Cadw cofnod o'r materion a godwyd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf

20

Gwneud atgyfeiriad brys at dîm diogelu'r awdurdod lleol neu at yr heddlu

13

Cynnal arolygiad brys

7

Cyfeirio pobl at asiantaeth arall sydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r mater a godwyd

6

Rhannu'r wybodaeth ag awdurdodau eraill a chydlynu camau â nhw os oes materion difrifol

3

Os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, awgrymu y dylai pobl wneud cwyn uniongyrchol i'r gwasanaeth



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Adolygu hysbysiadau

Mae rheoliadau'n nodi pa ddigwyddiadau y mae'n rhaid i ddarparwyr ein hysbysu amdanynt ac maent yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd mewn gwasanaeth. Mae hysbysiadau'n cynnwys rhoi gwybod i ni am newidiadau yn y gwasanaeth, pan fydd plentyn ar goll, honiadau o gam-drin a gorchmynion gan yr Uchel Lys sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid. Rydym yn adolygu hysbysiadau yng nghyd-destun yr hyn rydym eisoes yn ei wybod am y gwasanaeth ac rydym yn effro i unrhyw dueddiadau lle y gall fod angen i ni gymryd camau dilynol neu ofyn am wybodaeth bellach gan y darparwr.

Cawsom 8,669 o hysbysiadau'r flwyddyn hon, a gall fod angen i ni weithredu ynghylch rhai ohonynt, ac mae eraill er gwybodaeth yn unig yn bennaf.

Cawsom 600 o hysbysiadau am honiadau o gam-drin a 931 yn rhoi gwybod i ni am ymholiadau amddiffyn plant, a gwnaethom ystyried pob un ohonynt yn ofalus. Yn aml, roedd y rhain yn ymwneud â digwyddiadau nad ydynt wedi'u nodi mewn rheoliadau ac nad oeddent yn cyrraedd trothwyon diogelu awdurdodau lleol. Ar ôl ystyried y rhain a siarad â'r darparwr i gael rhagor o wybodaeth, gwnaethom ganfod nad oedd angen i ni gymryd unrhyw gamau pellach ynghylch y mwyafrif ohonynt, megis achosion a oedd yn ymwneud â digwyddiadau rhwng cyfoedion neu ddatgelu achos hanesyddol o gam-drin nad oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth gofal.

Mae hyn hefyd yn wir am hysbysiadau am blant yn mynd ar goll lle cawsom 3,758 o hysbysiadau (cynnydd o 29.5% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf). Mae'r hysbysiadau'n ymwneud â thros 500 o blant, y rhoddwyd gwybod bod y rhan fwyaf ohonynt ar goll ar un achlysur, ond rhoddwyd gwybod bod 15 o blant neu bobl ifanc ar goll ar fwy na 40 o achlysuron gan gyfrif am 782 o hysbysiadau. Yn aml, roedd y gwasanaeth yn gwybod ble roeddent a'u bod yn ddiogel, er enghraifft roeddent wedi torri amser cyrffiw wrth gwrdd â ffrindiau. Mae plant â phrofiad o fod mewn gofal wedi dweud ei bod yn gas ganddynt gael eu labelu fel pe baent 'ar goll' yn y sefyllfaoedd hyn. Rydym felly wedi adolygu ein diffiniad o'r hyn y mae'n rhaid rhoi gwybod i ni amdano, er mwyn cyd-fynd â diffiniad yr heddlu o berson coll: *"Bydd unrhyw un na ellir sefydlu ei leoliad yn cael ei ystyried fel rhywun ar goll hyd nes y deuir o hyd iddo ac y gellir cadarnhau eu llesiant ai peidio."* Bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith yn 2026.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Canfyddiadau arolygiadau

Tabl 6: Arolygiadau o wasanaethau plant cofrestredig yn ôl y math o wasanaeth, 2025 i 2026

Math o wasanaeth	Nifer yr arolygiadau 2025 i 26
Gwasanaeth cartref gofal i blant	205
Gwasanaeth maethu awdurdod lleol	6
Gwasanaeth maethu	3
Ysgol breswyl	6
Coleg addysg bellach	2
Canolfan breswyl i deuluoedd	2
Gwasanaeth llety diogel	1
Gwasanaeth preswyl ysgol arbennig	1
Cyfanswm Cyfun	226

Dim ond ar gyfer cartrefi gofal rydym yn dyfarnu graddau a nodwyd gennym fod y rhan fwyaf yn cyflawni canlyniadau da i blant a phobl ifanc.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Tabl 7: Trosolwg o'r graddau a ddyfarnwyd i wasanaethau cartrefi gofal i blant yn 2025-26

	Rhagorol	Da	Rhaid gwella	Rhaid gwella'n sylweddol
Gwasanaethau cartrefi gofal i blant	263	389	58	18

Troednodyn: Yn cynnwys cyfanswm nifer y graddau lle mae gwasanaeth wedi cael ei arolygu unwaith neu fwy yn ystod y cyfnod adrodd.

O blith y 205 o gartrefi y gwnaethom eu harolygu'r flwyddyn hon, roedd 90% o'r graddau a ddyfarnwyd yn raddau 'da' neu'n raddau 'rhagorol', a chafodd 148 (72%) o gartrefi gofal raddau da neu ragorol yn y pedair thema arolygu. Dim ond pum cartref gofal (2.4%) a gafodd raddau rhaid gwella neu raddau rhaid gwella'n sylweddol yn y pedair thema.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Astudiaeth achos 1: Gwasanaeth seibiant byr i blant anabl gyda phedair gradd ragorol

Nododd ein hadroddiad arolygu: *“Mae llesiant y plant yn cael ei hyrwyddo i safon ragorol. Cânt eu cefnogi i wneud dewisiadau am brydau, gweithgareddau ac arferion, sy'n annog annibyniaeth a hyder. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau cryf â staff gofal a'r diweddariadau rheolaidd a ddarperir yn ystod arosiadau plant. Mae'r plant yn mwynhau ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys cyfleoedd yn y gymuned, sy'n ychwanegu at eu hapusrwydd a'u hansawdd bywyd.*

Darperir gofal a chymorth i safon uchel iawn. Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac maent yn rhoi arweiniad ymarferol i'r staff gofal er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae'r adborth gan deuluoedd yn hynod gadarnhaol, gyda llawer yn dweud bod y gofal yn ardderchog ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Mae gwaith adnewyddu diweddar wedi creu lle croesawgar a chyfforddus i'r plant. Mae'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y plant ac yn galluogi'r staff gofal i ddarparu gofal o ansawdd uchel.”

Astudiaeth achos 2: Cartref gofal i blant anabl yn 'newid bywydau'

Dywedodd un teulu wrthym fod y gofal a'r cymorth a ddarparwyd gan gartref gofal i blant anabl yn *“newid bywydau yn ystod argyfwng”*. Drwy ofal cyson a magwrs a chydberthnasau cryf, rhoddodd y lleoliad sefydlogrwydd a diogelwch i'w plentyn a'r hyder i ffynnu. Gwelodd y teulu welliannau clir o ran llesiant emosiynol ac ymddygiad, a gwnaeth y seibiant a'r cymorth a ddarparwyd eu helpu i adfer a chryfhau perthnasoedd teuluol. Mae profiad y teulu hwn yn dangos y gwahaniaeth pwerus y gall gofal preswyl tosturiol a gaiff ei reoli'n dda ei wneud i blant a theuluoedd. Yn yr arolygiad diwethaf, dyfarnwyd tair gradd dda ac un radd ragorol i'r cartref am arweinyddiaeth a rheolaeth.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Astudiaeth achos 3: O gartref gofal i awdur cyhoeddedig

Dechreuodd plentyn a oedd yn byw mewn cartref gofal ysgrifennu straeon a chafodd gefnogaeth gan staff i ddatblygu'r straeon hyn yn llyfr gyda darluniau cyfatebol. Gwnaeth darparwr y gwasanaeth gyhoeddi'r llyfr ac, yn ystod gwyliau'r Pasg 2025, cynhaliodd ddigwyddiad llofnodi lle gallai ffrindiau, teulu, staff a phlant o wasanaethau eraill y darparwr ddathlu cyflawniad y plentyn. Dyfarnwyd pedair gradd ragorol i'r gwasanaeth hwn.

Noder: nid ydym yn cyhoeddi adroddiadau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i blant ar ein gwefan ar hyn o bryd.

Gwasanaethau maethu awdurdodau lleol

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom adrodd ar y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'n harolygiadau o wasanaethau maethu awdurdodau lleol. Parhaodd yr arolygiadau hyn y flwyddyn hon a gwelsom dystiolaeth gref o gymorth effeithiol i ofalwyr maeth a phlant ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, gyda dulliau therapiwtig ac ystyriol o drawma, profiadau cadarnhaol i blant, a mynediad da at wasanaethau eirioli, cymorth addysg a chynlluniau pontio. Roedd arferion arloesol a threfniadau goruchwyllo effeithiol ar y cyfan yn cryfhau darpariaeth ymhellach.

Ysgolion preswyl

Y flwyddyn hon, gwnaethom arolygu chwe ysgol breswyl, ac roedd ein canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaethom nodi rhai themâu cyffredin, gan gynnwys diffyg prosesau goruchwyllo ffurfiol, er i rai lleoliadau ddangos systemau arfarnu cryfach. Roedd arferion diogelu yn gadarn ar y cyfan, ond gwelsom amrywiad o ran ansawdd cynlluniau llesiant, gyda ffocws cyfyngedig ar ganlyniadau i blant.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gorchmynion Amddifadu o Ryddid

Caiff gorchmynion Amddifadu o Ryddid eu cyhoeddi gan yr Uchel Lys i gadw plant yn ddiogel yn absenoldeb opsiynau eraill (megis cartref plant diogel), ac fel arfer maent o ganlyniad i gynllun argyfwng byrdymor. Rydym yn ymwybodol o'r cynnydd a gofnodwyd yn y gorchmynion hyn yng Nghymru a Lloegr. Cofnododd [Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield](#) 1,440 o geisiadau amddifadu o ryddid yn 2025 – cynnydd o 12.5% ers 2024.

Mae'r cynnydd hwn wedi'i briodoli i gynydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n ymuno â'r system ofal sydd â phroblemau cymhleth, mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd meddwl ac ymyrryd yn gynnar, a phrinder lleoliadau therapiwtig mewn cartrefi plant a gyda gofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ddarparu cymorth a diwallu anghenion y plant hyn.

Mae modelau amgen yng Nghymru, fel y model MyST (Fy Nhîm Cymorth) amlasiantaethol sydd ar gael mewn rhai ardaloedd, gwasanaeth iechyd meddwl dwys i blant sydd mewn gofal neu ar ffiniau gofal sy'n gweithio gyda'u gofalwyr i ddarparu cymorth cyfannol, hirdymor cyn i broblemau waethygu i'r pwynt lle gallai fod angen gorchmynion Amddifadu o Ryddid.

Fel y rheoleiddiwr, dim ond pan fydd gorchmynion Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer plentyn mewn cartref plant y caiff AGC ei hysbysu. Yn 2025, cawsom

73 o hysbysiadau gan 42 o gartrefi am blentyn a oedd yn byw mewn cartref gofal oedd â gorchmynion Amddifadu o Ryddid (o gymharu â 50 o hysbysiadau y flwyddyn ddiwethaf). Mae llawer o'r ceisiadau hyn yn ymwneud ag adnewyddu gorchmynion yn hytrach na'u bod yn cynrychioli 73 o blant gwahanol. Er enghraifft, cyflwynodd un cartref gofal wyth hysbysiad ar gyfer un person ifanc dros gyfnod o saith mis.

Er bod nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n destun gorchmynion Amddifadu o Ryddid yn fach o hyd, rydym yn bryderus ynglŷn â'r effaith ar y ffordd y darperir gofal a chymorth, ar gyfer y plentyn unigol ac ar gyfer plant eraill sy'n byw gyda nhw. Dylai unrhyw gyfyngiadau fod yn gymesur, yn angenrheidiol ac yn ymatebol i anghenion cymhleth y plentyn. Y flwyddyn hon, ar ddau achlysur lle gwelsom amgylcheddau a oedd yn rhy gyfyngol, rydym wedi cymryd camau i sicrhau gwelliannau.

Meysydd i'w gwella ym maes gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi 19 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth i 18 o wasanaethau mewn perthynas â safonau gofal a chymorth neu arweinyddiaeth a rheolaeth. Gwnaethom arolygu pedwar cartref gofal fwy nag unwaith i sicrhau bod gwelliannau wedi'u gwneud. Mae bob amser yn gadarnhaol gweld gwelliannau'n cael eu gwneud sy'n cyfrannu at lesiant plant ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, gwnaethom arolygu cartref gofal ym mis Mawrth



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- **Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc**
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

2025 a gwnaethom gyhoeddi Hysbysiadau
Gweithredu â Blaenoriaeth. Pan wnaethom ailarolygu
ym mis Medi, gwnaethom ddyfarnu pedair gradd dda.
Gwnaethom nodi bod y rheolwyr wedi llwyddo i
arwain y gwasanaeth drwy gyfnod heriol yn effeithiol,
gan wella llesiant y plant a'r staff gofal. Roedd y
gwasanaeth yn dibynnu llai ar staff gofal asiantaeth,
gan sicrhau bod y plant yn cael gofal gan staff gofal
parhaol y gallent feithrin cydberthnasau llawn
ymddiriedaeth â nhw.

Atgyfeiriwyd chwe gwasanaeth plant at ein panel
gorfodi a arweiniodd at gyhoeddi hysbysiad statudol i
bedwar gwasanaeth. Gwnaeth tri o'r rhain y
gwelliannau angenrheidiol, ond canslwyd cofrestriad
un gwasanaeth.

Nododd ein harolygiadau o wasanaethau maethu
awdurdodau lleol heriau a oedd yn codi dro ar ôl tro
ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau
parhaus o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth,
gwendidau wrth baru lleoliadau, a threfniadau
anghyson ar gyfer galluogi plant i chwarae rhan
ystyrlon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.
Gwelsom amrywiad o ran arferion diogelu hefyd,
ynghyd â bylchau mewn hyfforddiant a datblygiad,
anghysondebau wrth olrhain addysg, ac eglurder
cyfyngedig mewn perthynas â gofal gan berthynas.
Pwysleisiodd gwahaniaethau o ran strwythurau
gwasanaethau yr angen i gysoni ymarfer, trefniadau
goruchwylio a chanlyniadau i blant ymhellach.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau plant awdurdodau lleol

Sicrwydd a gwellia

Y flwyddyn hon, gwnaethom gynnal arolygiadau
mewn 10 awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys
arolygiadau o dair cydweithredfa fabwysiadu
ranbarthol a dau archwiliad gwelliant er mwyn olrhain
y cynnydd a wnaed ers ein harolygiad diwethaf.
Gallwch weld [adroddiadau arolygu ac adolygu
awdurdodau lleol](#) ar wefan AGC.

Gwnaethom ymateb i 93 o bryderon am wasanaethau
plant awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn ymwneud
yn bennaf ag ansawdd gwasanaethau a phrosesau
gwneud penderfyniadau (megis oedi wrth asesu neu
gyfathrebu), pryderon ynghylch diogelwch a materion
sy'n gysylltiedig â'r llys, p'un a gymerwyd y camau
cywir, a'r cymorth a ddarperir, gan gynnwys lleoliadau.

Ymarfer cadarnhaol

Yn ystod ein harolygiadau'r flwyddyn hon, gwelsom
lawer o enghreifftiau o awdurdodau lleol yn
gweithio'n galed i hyrwyddo hawliau plant a gwellia
canlyniadau i blant a theuluoedd, ochr yn ochr â
meysydd y mae angen eu gwellia ymhellach o hyd.

Hawliau a chyfranogiad plant

Canfu ein gwaith arolygu ac ymgysylltu y flwyddyn hon
ffocws cryf ar hawliau plant ar draws gwasanaethau
plant. Gwelsom lawer o wasanaethau'n gwneud yn
siŵr bod y staff yn gwrandao ar y plant, gan adlewyrchu
eu barn mewn cynlluniau, a phenderfyniadau a oedd
yn cael eu hategu gan ddulliau sy'n ystyriol o drawma
ac yn seiliedig ar gryfderau. Er enghraifft:

- Dangosodd Sir y Fflint ymarfer effeithiol o ran
sichrau bod staff yn gwrandao ar leisiau plant
mewn perthynas ag amddiffyn plant a chynllunio
gofal, gan gynnwys 'cyfeillion cynadledda' a ffordd
addas i blant rannu eu barn.
- Dangosodd Ynys Môn a Chaerffili ymarfer sy'n
addas i blant a oedd yn helpu plant i ddeall yr hyn
a oedd yn digwydd a chymryd rhan mewn
penderfyniadau. Ysgrifennodd Cyngor Sir Ynys
Môn yn uniongyrchol at blant a defnyddiodd
adnoddau i gasglu eu barn, a defnyddiodd Cyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili ddulliau sy'n ystyriol o
drawma ac yn seiliedig ar gryfderau.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, helpodd plant a
phobl ifanc i wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n
cyfathrebu gan ddefnyddio iaith glir drwy
gydgynhyrchu canllawiau iaith.
- Yng Ngwynedd a Chydweithredfa Fabwysiadu
Ranbarthol Gogledd Cymru, mae plant yn
cyfrannu'n weithredol at gyfweiliadau staff drwy
fod yn rhan o baneli neu ysgrifennu cwestiynau.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Help cynnar ac atal

Gwelsom enghreifftiau mewn sawl awdurdod lleol o wasanaethau help cynnar, atal a chymorth i deuluoedd effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Roedd cryfderau cyffredin yn cynnwys cymorth 'ar ffiniau gofal' a oedd yn helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd, timau cymorth i deuluoedd yn gweithio gyda theuluoedd yn gynharach, a dulliau ataliol fel cynadleddau grŵp teulu a chymorth magu plant. Mae'r dulliau hyn yn helpu i gryfhau rhwydweithiau teuluol, lleihau achosion o uwchgyfeirio i wasanaethau statudol ac adlewyrchu cynnydd cadarnhaol tuag at gyflawni nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Partneriaethau diogelu

Gwelsom fod diogelu ar ei fwyaf effeithiol pan fydd y sector addysg, gwasanaethau iechyd a'r heddlu yn cael eu cynnwys yn gyson er mwyn cefnogi penderfyniadau prydol a chydgyssylltiedig. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae hwb diogelu amlasiantaethol yn dod â phartneriaid ynghyd i rannu gwybodaeth a chytuno ar gamau gweithredu, gyda chymorth llinell gyngor broffesiynol. Roedd 'drws ffrynt' Sir y Fflint ar ei newydd wedd yn cynnwys hwb diogelu, gyda chanllawiau cliriach ar drothwyon ac adnoddau gwneud penderfyniadau ymarferol, gan helpu gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau cyson a sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir yn gynharach. Dangosodd Blaenau Gwent drefniadau cydweithio cryf drwy gyfarfodydd goruchwyllo a chanlyniadau amlasiantaethol, gan

gefnogi goruchwyliaeth ar y cyd o risgiau ymhlith partneriaid.

Mae model Pwynt Mynediad Unigol Gwent yn dangos yr hyn y gall llwybrau integredig ei gyflawni. Mae un 'drws ffrynt' a rennir yn rhoi llwybr cliriach i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol at gyngor, prosesau brysbennu a'r cymorth cywir, gyda chamau trosglwyddo mwy llyfn rhwng gwasanaethau.

Mabwysiadu a maethu

Gwelsom ymarfer cadarnhaol yng ngwasanaethau mabwysiadu a maethu awdurdodau lleol hefyd, yn enwedig helpu plant i ddeall eu stori ac aros mewn cysylltiad â phobl sy'n bwysig iddynt. Dangosodd Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Bae'r Gorllewin waith cryf ar daith bywyd a gydgyhyrchwyd gyda gofalcwyr a theuluoedd geni, gyda gwiriadau ansawdd ochr yn ochr â chymorth cyswllt sy'n canolbwyntio ar y plentyn a gwasanaethau cyfryngol amserol. Cryfhodd Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gogledd Cymru waith ar daith bywyd drwy rolau, canllawiau a dulliau therapiwtig penodol fel straeon a llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd. Roedd hefyd yn cefnogi cysylltiad drwy helpu mabwysiadwyr a theuluoedd geni i gyfarfod, lle y bo'n briodol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae caffis y Rhwydwaith Eirioli dros Rieni a grwpiau dan arweiniad pobl ifanc yn helpu teuluoedd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a dylanwadu ar y cymorth y maent yn ei gael.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ar y cyfan, dangosodd ein harolygiadau o wasanaethau plant awdurdodau lleol y flwyddyn hon gynnydd parhaus, gydag ymarfer a systemau cryfach mewn llawer o feysydd yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd.

Meysydd i'w gwella yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol

Gwnaethom nodi meysydd cyffredin i'w gwella, gan gynnwys gwahaniaethau o ran y ffordd y mae asiantaethau'n asesu risg ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch pryd y mae angen cymorth neu ymyrraeth ychwanegol. Er bod prosesau craidd ar waith, mae gormod o achosion o hyd lle na chaiff camau allweddol bob amser eu cwblhau mor gyflym ag y dylent, a lle nad yw penderfyniadau a chanlyniadau bob amser yn cael eu cofnodi na'u rhannu'n glir. Gwelsom rywfaint o amrywiad o ran ansawdd asesiadau hefyd, yn enwedig o ran pa mor glir roedd risgiau ac anghenion yn cael eu dadansoddi a'u hesbonio. Yn ogystal, nid oedd eiriolaeth yn cael ei chynnig na'i chofnodi'n gyson bob amser. Gall hyn gyfyngu ar ba mor dda y mae plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal.

Mae pwysau ar y system hefyd yn effeithio ar y gallu i sicrhau'r lleoliadau cywir, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth. Roedd heriau ynghylch digonolrwydd lleoliadau yn nodwedd reolaidd yn ein gwaith, gan gynnwys anawsterau wrth geisio dod o hyd i leoliadau lleol addas. Yn galonogol, mae rhai ardaloedd yn gweld mwy o sefydlogrwydd, ond mae

capasiti'r gweithlu a mynediad at rolau arbenigol dan bwysau o hyd a all effeithio ar barhad ac amseroldeb cymorth. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion cynyddol gymhleth ac sy'n gorgyffwrdd mewn teuluoedd. Mae staff brwdfrydig ac ymroddedig yn gweithio'n galed i ymateb i'r pwysau hyn, ond mae cymhlethdod anghenion rhai plant yn parhau i gynyddu'r galw ar y system.

Nid yw profiadau plant yn gyson ledled Cymru eto, gan gynnwys gwahaniaethau o ran pa mor gyflym y darperir cymorth, pa mor dda y mae gwasanaethau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a theuluoedd, a pha mor effeithiol y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau. Mae hyn yn golygu bod rhai plant yn profi oedi neu fylchau mewn cymorth. Mae'r heriau hyn yn fwy amlwg i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai sy'n niwroamrywiol, lle mae oedi wrth asesu neu newidiadau mewn lleoliadau neu addysg yn tarfu ar gymorth ac yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal cydberthnasau sefydlog a chynlluniau cyson.

Iechyd meddwl plant: adolygiad thematig ar y cyd

Nododd ein hadolygiad thematig o iechyd meddwl plant ar y cyd ag AGIC ac Estyn yn 2024 fod angen brys am system cymorth iechyd meddwl fwy ymatebol, teg ac integredig ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at ymrwymiad clir a chryf i weithio mewn partneriaeth, gyda llawer o enghreifftiau da o wasanaethau'n cydweithio i gefnogi plant. Ers cyhoeddi'r adroddiad, rydym wedi



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

gweithio gyda phartneriaid i adolygu cynlluniau
gwella rhanbarthol, ymgysylltu â byrddau diogelu, a
monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiad
ar waith. Er bod angen gwneud rhagor o welliannau,
rydym wedi gweld arwyddion calonogol o drefniadau
partneriaeth cryfach a phrofiadau gwell i blant mewn
rhai ardaloedd, gan gynnwys ymatebion mwy
cydgysylltiedig a llwybrau cliriach at gymorth.

Gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad

Y flwyddyn hon, gwnaethom nodi bod 76 o gartrefi
gofal i blant yn gweithredu heb gofrestrriad. Mae'r
ffigur hwn yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf (74) ond
mae'n ostyngiad sylweddol o'r 117 a gofnodwyd yn
2023-24. Gwelsom ostyngiadau o ran am ba hyd y bu
rhai cartrefi'n gweithredu heb gofrestrriad. Lle mae
lleoliadau'n para am gyfnod hwy, mae hyn yn
adlewyrchu anghenion cymhleth y plant sy'n byw yno.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd awdurdodau lleol
yn darparu'r gwasanaethau hyn i blant yn eu gofal ac
maent wedi dweud wrthym mai dim ond fel dewis olaf
y maent yn defnyddio cartrefi gofal heb eu cofrestru
pan nad oes unrhyw leoliadau cofrestredig addas ar
gael. Rydym wedi gweld tuedd gadarnhaol mewn
awdurdodau lleol yn rhoi pobl ifanc mewn safleoedd
y maent yn bwriadu eu cofrestru. Er bod y
gwasanaethau hyn yn gweithredu heb gofrestrriad o
hyd, mae rhoi plant mewn safleoedd y bwriedir eu
cofrestru yn y dyfodol yn cefnogi sefydlogrwydd ac yn
lleihau'r angen i blant symud sawl gwaith.

Y ffordd y mae AGC yn ymdrin â gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestrriad

Mae safbwynt AGC yn glir: mae gweithredu
gwasanaeth heb gofrestrriad yn anghyfreithlon ac nid
yw'n ddewis amgen addas yn lle gofal cofrestredig
priodol. Yr unig gamau cyfreithiol sydd ar gael i ni yn
erbyn darparwr anghofrestredig yw erlyniad
troseddol, sy'n gofyn am ganiatâd y Cwnsler
Cyffredinol. Rydym yn cydnabod bod gan
awdurdodau lleol gyfrifoldebau cyfreithiol deul:
darparu llety i blentyn a gwneud hynny mewn lleoliad
cofrestredig sy'n diwallu anghenion y plentyn. Rydym
wedi datblygu proses uwchgyfeirio sy'n ymdrin â
phob penderfyniad gorfodi mewn ffordd gymesur ac
ar sail achosion unigol. Fel rhan o'r dull hwn, rydym yn
ceisio sicrwydd gan awdurdodau lleol ynghylch sut
mae plant sy'n destun trefniadau o'r fath yn cael eu
diogelu a sut y caiff risgiau eu nodi, eu monitro a'u
rheoli. Yn ogystal, rydym yn ceisio gwybodaeth am
gynlluniau awdurdod lleol naill ai i gofrestru'r
gwasanaeth neu osod y plentyn mewn lleoliad
cofrestredig priodol.

Mae ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol
wedi canfod trefniadau goruchwyllo strwythuredig,
gan gynnwys gwaith craffu ar benderfyniadau lleoli
gan uwch-swyddogion, adolygiad parhaus o risg ac
addasrwydd, a threfniadau i fonitro diogelwch a
llesiant plant wrth drefnu lleoliadau tymor hwy. Mae
gwaith cynllunio gofal yn parhau yn ystod y cyfnodau
hyn, gyda chyfranogiad amlasiantaethol pan fo



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

angen, a ffocws ar hyrwyddo sefydlogrwydd a symud
plant ymlaen i ddarpariaeth gofrestredig cyn gynted â
phosibl.

Yn gyffredinol, nid oes arwydd clir bod y sefyllfa'n
gwella nac yn gwaethygu dros amser. Mae'n tynnu
sylw at yr her barhaus o sicrhau digon o leoliadau
cofrestredig addas a chynaliadwy i blant ag
anghenion cymhleth sydd angen mynediad at ystod
o wasanaethau arbenigol. Mae'r defnydd parhaus o
leoliadau anghofrestredig yn pwysleisio pwysigrwydd
gwaith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol i
gryfhau mynediad at leoliadau cofrestredig priodol fel
y gall plant gael gofal yn gyson mewn gwasanaethau
sy'n destun camau goruchwyllo ac arolygu
rheoleiddiol llawn.

Diogelu plant a phobl ifanc

Yn 2022, yn dilyn marwolaeth drasig sawl plentyn
ledled Cymru a Lloegr, gwnaethom gynnal [Adolygiad
Cyflym Amddiffyn Plant](#) amlasiantaethol o drefniadau
amddiffyn plant, gyda phwyslais penodol ar wneud
penderfyniadau. Y flwyddyn hon, ar y cyd ag Estyn ac
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), gwnaethom
olrhain cynnydd o ran rhoi argymhellion yr adolygiad ar
waith. Gwelsom ymrwymiad cryf gan bartneriaid
diogelu i roi'r argymhellion ar waith a mynd i'r afael â'r
rhwystrau i wneud hynny. Cynhaliodd Byrddau Diogelu
Rhanbarthol hunanasesiadau i gynnal ffocws a mesur
eu cynnydd yn erbyn ein hargymhellion.

Dangosodd y cynlluniau gwella a gyflwynwyd gan
bob rhanbarth benderfyniad clir i gryfhau gwaith
amlasiantaethol, gwella ymarfer sy'n canolbwyntio ar
y plentyn, a gwella trefniadau llywodraethu ac
atebolrwydd. Bu cynnydd o ran gweithio mewn
partneriaeth, safoni trothwyon ac ymarfer sy'n
canolbwyntio ar y plentyn, gyda chymorth mentrau
hyfforddiant amlasiantaethol. Mae trefniadau
llywodraethu a sicrwydd wedi cael eu hatgyfnerthu.
Yn genedlaethol, mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru
yn cael eu datblygu ymhellach gyda diweddariadau
i'w cyhoeddi yn haf 2026.

Fodd bynnag, mae heriau yn bodoli o hyd o ran
sicrhau cysondeb, prosesau rhannu data cadarn, a
mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu. Bydd cydlyniant
cenedlaethol parhaus a chymorth wedi'i dargedu yn
hanfodol er mwyn cynnal momentwm a chyflawni'r
gwelliannau a ragwelwyd gan yr adolygiad.

Y flwyddyn hon, roedd [adroddiad Cyfiawnder Trwy
Ein Dewrder](#) yn cynnwys goblygiadau difrifol ar gyfer
diogelu yng Nghymru. Dangosodd, er gwaethaf y
cynnydd sydd wedi'i wneud, fod parhau i fod yn
wyladwrs yn hanfodol o hyd. Sbardunodd, yn
briodol, broses graffu o'r newydd ar ba mor effeithiol
y mae systemau'n nodi pryderon, yn ymateb iddynt ac
yn eu huwchgwyfeirio pan fydd plant o bosibl yn
wynebu risg gan bobl mewn swyddi o ymddiriedaeth.

Gwnaethom ymateb drwy gryfhau ein rôl reoleiddio a
sicrhau systemau. Gwnaethom weithio'n agos gyda
phartneriaid, gan gynnwys Estyn, ac ym mis



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- **Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol**
- Gwasanaethau gofal
plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Tachwedd 2025, gwnaethom gynnal gweithgarwch arolygu wedi'i dargedu yng Ngwynedd i archwilio trefniadau diogelu, prosesau goruchwyllo arweinyddiaeth a'r ffordd yr ymdrinnir â honiadau yn erbyn y rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth. Darparodd y gwaith hwn her a sicrwydd ac atgyfnerthodd bwysigrwydd trosi ymrwymïadau llywodraethu a pholisi yn ymarfer sy'n gyson gryf ar lawr gwlad. Rydym yn parhau i bwysleisio pa mor bwysig yw gwrando ar blant, chwilfrydedd proffesiynol, ac atebolrwydd clir pan gaiff pryderon eu codi.

Rydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer adolygiad thematig cenedlaethol o'r ffordd y gweithredir adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ddechrau 2027. Bydd hyn yn canolbwyntio ar honiadau yn erbyn pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth sy'n gweithio gyda phlant. Bydd y gwaith hwn, a gynlluniwyd cyn yr Adolygiad Ymarfer Plant ond sydd angen ei weithredu ar fyrder o ganlyniad i'w ganfyddiadau, yn archwilio ymarfer, trothwyon a goruchwyliaeth ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i fyfyrïo ar ein dulliau arolygu a'n dysgu ein hunain, gan sicrhau bod ein gweithgarwch rheoleiddio yn darparu'r sicrwydd cryfaf posibl i blant, teuluoedd a Gweinidogion.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Proffil gwasanaethau cofrestredig

**Tabl 8: Gwasanaethau gofal plant a chwarae yng
Nghymru yn ôl y math o wasanaeth ar 31 Mawrth 2026**

Math o wasanaeth	Nifer y gwasanaethau	Nifer y lleoedd
Gwarchodwr plant	1,364	11,336
Crèche	10	377
Gofal dydd llawn	1,149	46,111
Darpariaeth chwarae mynediad agored	33	2,377
Gofal y tu allan i'r ysgol	287	12,325
Gofal dydd sesiynol	296	6,842
Cyfanswm	3,139	79,368

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrodd 102 o wasanaethau gofal dydd llawn a gwnaeth 92 ganslo eu cofrestriad, sef llai na'r flwyddyn ddiwethaf. Lle rhoddwyd rhesymau dros ganslo, roedd y mwyafrif oherwydd eu bod yn ailgofrestru o dan berchnogaeth gyfreithiol wahanol. Fodd bynnag, caeodd nifer o wasanaethau am nad oeddent yn gallu recriwtio a chadw staff â chymwysterau addas. Cyfeiriodd eraill at resymau ariannol, gan gynnwys cynnydd yn yr isafswm cyflog, cyfraniadau yswiriant a gorbenion.

Y flwyddyn hon, cofrestrodd 63 o warchodwyr plant (yr un nifer â 2024-25). Er i lai o warchodwyr plant ganslo eu cofrestriad na'r flwyddyn ddiwethaf (116 o gymharu â 147), parhaodd y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru. Roedd y rhesymau cyffredin a

roddwyd gan warchodwyr plant dros ganslo eu cofrestriad yn cynnwys gadael i ddilyn gyrfaedd mewn meysydd eraill, newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ac ymddeol.

Rydym wedi gweld rhai gwasanaethau sesiynol yn newid i ddarparu gofal dydd llawn drwy ehangu eu horiau. Mae hyn wedi cynyddu nifer y lleoedd a gynigir, gan sefydlogi'r capasiti cyffredinol er bod llai o wasanaethau cofrestredig.

Y flwyddyn hon, er y bu gostyngiad o 3.7% yn nifer y gwarchodwyr plant (315 yn llai o leoedd), mae gwasanaethau gofal dydd llawn wedi cynyddu 2.5% gan ddarparu 1,927 yn fwy o leoedd i blant. Gall y patrwm adlewyrchu galw a dewisiadau rhieni, yn ogystal â manteision ariannol a gweithredol darpariaeth ar raddfa fwy.

Gwarchodwyr
plant

Gostyngiad
o 3.7%

**315 yn llai
o leoedd**

Gofal dydd
llawn

Cynnydd
o 2.5%

**1,927 yn fwy
o leoedd**

Tuedd deg mlynedd mewn gofal plant a chwarae

Dros y degawd diwethaf, bu tuedd ddiddorol yn nifer cyffredinol y gwasanaethau a'r lleoedd gofal plant a chwarae yng Nghymru. Rydym wedi gweld gostyngiad graddol yn nifer y gwasanaethau, gyda 28.5% (1,250) yn llai na'r nifer 10 mlynedd yn ôl. Bu twf cyson yn nifer y lleoedd gofal plant a chwarae rhwng 2016 a 2021 ac, ar ôl hynny, dechreuodd nifer y





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

lleoedd ostwng, gyda 5,140 yn llai o leoedd ar 31 Mawrth 2026 o gymharu â'r nifer uchaf yn 2021 pan oedd 84,508. Yn ein barn ni, mae hyn oherwydd bod llawer o wasanaethau llai wedi dewis peidio ag ailddechrau neu barhau i weithredu yn dilyn pandemig COVID-19.

Gostyngodd nifer y gwasanaethau crèche o 28 i 10 (212 yn llai o leoedd), darpariaeth mynediad agored o 56 i 33 (ond gan ddarparu 99 yn fwy o leoedd), gofal y tu allan i'r ysgol o 444 i 287 (4,036 yn llai o leoedd) a gofal dydd sesiynol o 765 i 296 (gan golli 10,367 o leoedd). Rydym yn ymwybodol bod nifer mawr o leoliadau sesiynol wedi newid eu categori i ofal dydd llawn er mwyn bod yn fwy cynaliadwy. Mae rhai gwasanaethau llai bellach yn gweithredu am lai na dwy awr ac felly nid oes angen iddynt gofrestru â ni.

Yn yr un cyfnod, mae nifer y gwasanaethau gofal dydd wedi cynyddu 70%, gan ddarparu 61% yn fwy o leoedd. I'r gwrthwyneb, gostyngodd nifer y gwarchodwyr plant 43.6% o 2,419 i 1,364.

At ei gilydd, mae'r ffigurau'n awgrymu bod ffurf y sector yn newid yn hytrach na'i fod yn lleihau'n unig. Mae cyfanswm nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae wedi gostwng dros y degawd diwethaf, ond nid yw hyn wedi arwain at ostyngiad cyfatebol mewn capasiti. Yn hytrach, mae'n ymddangos bod darpariaeth yn cyfuno yn lleoliadau mwy o faint, yn enwedig gofal dydd llawn, lle mae nifer y gwasanaethau a nifer y lleoedd wedi cynyddu'n sylweddol. Ar yr un pryd, mae'r gostyngiad parhaus

mewn gwarchodwyr plant a gofal dydd sesiynol yn awgrymu bod mathau llai a mwy hyblyg o ddarpariaeth dan bwysau parhaus. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y gwasanaethau hyn yn aml yn darparu opsiynau lleol, teuluol neu ran-amser a all fod yn bwysig i ddewis rhieni, cymunedau gwledig a phlant a all elwa ar leoliadau llai o faint. Mae'r ffigurau diweddar o flwyddyn i flwyddyn yn atgyfnerthu'r patrwm hwn: gofal dydd llawn wedi ehangu, tra bo nifer a lleoedd gwarchodwyr plant wedi parhau i ostwng. Mae'r sector felly yn cynnal y capasiti cyffredinol, ond drwy gymysgedd gwahanol o ddarpariaeth, gyda goblygiadau posibl ar gyfer hygyrchedd, hyblygrwydd a dewis rhieni.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027


Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa


Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Graff 7 ac 8: Yr holl wasanaethau a lleoedd gofal plant a chwarae o 2016 i 2026

Graff 7: Cyfanswm nifer y gwasanaethau
gofal plant a chwarae



Graff 8: Cyfanswm nifer y lleoedd
gofal plant yng Nghymru



Mae'r tabl hwn yn dangos gostyngiad yn nifer
cyffredinol yr holl wasanaethau a lleoedd gofal plant
a chwarae rhwng 2016 a 2026.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027


Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa


Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Graff 9 a 10: Gwasanaethau a lleoedd gofal dydd llawn yng Nghymru, 2016 i 2026

Graff 9: Cyfanswm nifer y gwasanaethau gofal dydd llawn yng Nghymru




Graff 10: Cyfanswm nifer y lleoedd gofal dydd llawn yng Nghymru




Graff 11 a 12: Gwasanaethau a lleoedd gwarchodwyr plant yng Nghymru, 2016 i 2026

Graff 11: Cyfanswm nifer y gwasanaethau gwarchodwr plant yng Nghymru



Graff 12: Cyfanswm nifer y lleoedd gwarchodwr plant yng Nghymru





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Sicrwydd a gwellia

Ymateb i bryderon

Mae pryderon a godir gyda ni yn cynnig gwybodaeth
bwysig am ble y gall fod risgiau i ddiogelwch neu
lesiant plant.

Cawsom 411 o bryderon (o gymharu â 481 y flwyddyn
ddiwethaf), ac roedd 82% ohonynt yn ymwneud â
lleoliadau gofal dydd llawn. Roedd y rhan fwyaf o'r
pryderon yn ymwneud ag arweinyddiaeth a
rheolaeth. Mewn 77 o achosion, codwyd y pryder gan
chwythwr chwiban. Mae'n galonogol o hyd gweld bod
ymarferwyr gofal yn gwybod y gallant godi pryderon
gyda ni, a'u bod yn gwneud hynny.

Rydym yn ystyried pob pryder. Mae'r pryderon yn ein
helpu i benderfynu pryd i arolygu a pha feysydd i
ganolbwyntio arnynt. Mae nifer o gamau y gallwn eu
cymryd, a'n cam cyntaf yw asesu'r risgiau y mae'r
pryder yn eu peri ac ystyried unrhyw beth arall rydym
yn ei wybod am y gwasanaeth. Rydym bob amser yn
blaenoriaethu ac yn ymateb yn gyflym lle gall plant
fod yn wynebu risg neu wedi profi niwed.

Gwnaethom asesu y gallai 107 o'r pryderon gael
effaith fawr ar blant, gan arwain at gynnal arolygiad
brys i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol.

Caiff y camau eraill y byddwn yn eu hystyried eu nodi
isod. Gan fod rhai pryderon wedi arwain at fwy nag un
cam gweithredu, mae cyfanswm y ffigurau yn fwy na
nifer y pryderon a godwyd.

148

Cadw cofnod o'r materion a godwyd er mwyn
llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf.

130

Gofyn i'r gwasanaeth ymchwilio i'r materion a
rannwyd a rhoi gwybod i ni am y canlyniad er mwyn
llywio'r gwaith o gynllunio ein harolygiad nesaf.

16

Gwneud atgyfeiriad brys at dîm diogelu'r
awdurdod lleol neu at yr heddlu.

14

Os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, awgrymu
y dylent wneud cwyn uniongyrchol i'r gwasanaeth.

3

Cyfeirio pobl at asiantaeth arall sydd mewn
sefyllfa well i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

3

Rhannu'r wybodaeth ag awdurdodau eraill a
chydlynu camau â nhw yn ôl yr angen.

Adolygu hysbysiadau

Mae rheoliadau'n nodi pa ddigwyddiadau y mae'n
rhaid i ddarparwyr ein hysbysu amdanynt ac maent yn
darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n
digwydd mewn gwasanaeth. Cawsom 7,880 o
hysbysiadau'r flwyddyn hon. Bu'n rhaid i ni weithredu
ar rai ohonynt, ac roedd eraill er gwybodaeth yn unig.
Rydym yn adolygu hysbysiadau yn erbyn yr hyn
rydym eisoes yn ei wybod am y gwasanaeth ac rydym
yn effro i unrhyw dueddiadau lle y gall fod angen i ni
gymryd camau dilynol neu ofyn am wybodaeth
bellach gan y darparwr. Roedd y rhan fwyaf o'r
hysbysiadau (80%) yn ymwneud â newidiadau yn y
gwasanaeth megis staffio neu newidiadau i'r



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

datganiad o ddiben. Gostyngodd hysbysiadau am achosion honedig o niwed neu gam-drin 6.9% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, i 285.

Gweithgarwch arolygu a chanfyddiadau

Y flwyddyn hon, gwnaethom gwblhau 1,013 o weithgareddau arolygu (644 o ymweliadau â safleoedd arolygu a 369 o gyfarfodydd ansawdd). Yn ein holl weithgareddau, aethom ati i hyrwyddo'r canllawiau a'r adnoddau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar.

Tabl 9: Nifer yr arolygiadau neu gyfarfodydd ansawdd a gynhaliwyd yn 2025-2026

	Arolygiadau	Cyfarfod Ansawdd Gofal Plant a Chwarae	Cyfanswm
Gwarchodwr plant	234	136	370
Crèche	2	1	3
Gofal dydd llawn	280	162	442
Darpariaeth chwarae mynediad agored	4	3	7
Gofal y tu allan i'r ysgol	64	33	97
Gofal dydd sesiynol	60	34	94
Cyfanswm cyfun	644	369	1,013

Y flwyddyn hon, gwnaethom ddechrau diwygio ein fframwaith arolygu, gan symud o bedair thema arolygu i dair. Mae hyn yn dwyn ynghyd elfennau ynghylch gofal a llesiant a oedd yn arfer bod ar wahân, ac yn ymgorffori asesiad o effeithiolrwydd yr amgylchedd ar draws y tair thema, yn hytrach nag mewn thema annibynnol. Mae'r datblygiad hwn hefyd yn cael ei lunio gan argymhellion gan yr [Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant](#) a'r [Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae](#).

Rydym yn bwriadu ymgysylltu â darparwyr a chynrychiolwyr y sector i gasglu adborth a gwneud unrhyw ddiwygiadau perthnasol cyn ei roi ar waith y flwyddyn nesaf.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Rydym wedi bod yn cydweithio ag Estyn ers 2019 i arolygu ar y cyd y gofal a'r addysg a gaiff plant mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Y flwyddyn hon, gwnaethom arolygu 90 o wasanaethau gyda'n gilydd. Gwelsom fod y rhan fwyaf o wasanaethau yn darparu gofal da neu ragorol i blant.

Ynghyd ag Estyn, rydym wedi parhau i weithio ar adolygiad o'r fframwaith arolygu ar y cyd. Mae gweithgor ar y cyd wedi datblygu fframwaith wedi'i ddiweddarau sy'n cefnogi proses arolygu wirioneddol ar y cyd ac yn ein galluogi i rannu ein canfyddiadau mewn ffordd gliriach a mwy cryno. Bydd y fframwaith diwygiedig yn sicrhau bod mentrau allweddol Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, a'r canllawiau cyfredol ynghylch cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Canfu ein harolygiadau y flwyddyn hon fod y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant a chwarae yn parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Tabl 10: Graddau arolygu gofal plant a chwarae yn ôl y math o wasanaeth, 2025 i 2026

Nifer y graddau	Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Gwarchodwr plant	191	600	161	18
Crèche	0	6	2	0
Gofal dydd llawn	194	666	184	28
Darpariaeth chwarae mynediad agored	9	6	1	0
Gofal y tu allan i'r ysgol	29	134	52	13
Gofal dydd sesiynol	43	141	27	4
Cyfanswm	466	1,553	427	63

Troednodyn: Yn cynnwys cyfanswm y graddau. Mae rhai gwasanaethau wedi cael eu harolygu fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

O blith y gwasanaethau y gwnaethom eu harolygu y flwyddyn hon, cafodd 405 o wasanaethau (63%) raddau rhagorol neu dda, a chafodd 161 o wasanaethau eraill raddau rhagorol / da / digonol, sy'n golygu bod 88% o wasanaethau gofal plant a chwarae wedi cael gradd ragorol, dda neu ddigonol ar draws y pedair thema y flwyddyn hon. Dim ond 18 o wasanaethau a gafodd radd ddigonol ym mhob thema, ac ni chafodd unrhyw wasanaeth radd wael yn y pedair thema.

Dyfernir gradd 'digonol' os yw'r lleoliad yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol ac os yw'n ddiogel ac yn bodloni

gofynion sylfaenol. Rydym am i bob gwasanaeth gofal plant a chwarae wella'n barhaus ac anelu at ennill graddau da neu ragorol er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.

Rydym wedi bod yn cyhoeddi graddau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae ers 2019 a thros y chwe blynedd diwethaf, mae 79.8% o wasanaethau sydd ag adroddiad arolygu cyhoeddedig wedi cael graddau rhagorol, da neu ddigonol ym mhob un o'r pedair thema arolygu; gyda 55% yn cyflawni ar lefel uwch drwy gael graddau rhagorol neu dda ym mhob thema. Mae hyn yn arwydd clir o ansawdd gofal plant yng Nghymru.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Mae'r ffigurau arolygu a sicrwydd yn awgrymu bod ansawdd ar draws y sector yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ond bod angen clir i barhau i gefnogi gwelliant. Dim ond nifer bach iawn a gafodd raddau gwael yn gyson. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o leoliadau yn ddiogel ac yn diwallu anghenion plant, gyda llawer yn darparu profiadau da neu ragorol. Fodd bynnag, mae'r 272 o feysydd i'w gwella a'r 92 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dangos bod gwendidau o hyd, yn enwedig ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o raddau gwael a Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn ymwneud ag arweinyddiaeth, rheolaeth a staffio yn dangos mai llywodraethu, recriwtio, gwiriadau addasrwydd a goruchwyliaeth yw'r prif feysydd lle ceir pwysau. Er bod nifer y pryderon wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth o hyd, ac aseswyd y gallai dros chwarter ohonynt gael effaith fawr ar blant, gan arwain at arolygiadau brys. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau'n dangos sector sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant ar y cyfan, ond un lle mae pwysau ariannol, heriau recriwtio a darpariaeth wannach ar raddfa lai yn parhau i greu risgiau sydd angen eu monitro'n agos.

Meysydd i'w gwella ym maes gofal plant a chwarae

At ei gilydd, gwnaethom nodi 272 o Feysydd i'w Gwella a chyhoeddi 92 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth lle nodwyd gennym fod y canlyniadau i blant yn wael.

Dim ond 63 o wasanaethau a gafodd radd wael, gyda 40 ohonynt yn ymwneud â methiannau ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth ac a arweiniodd at gyhoeddi 56 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth i wneud gwelliannau ar unwaith yn y maes hwn. Roedd y prif broblemau a nodwyd mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn ymwneud â staffio, gan gynnwys arferion recriwtio diogel (79 o Feysydd i'w Gwella a 21 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth).

Gwnaethom fonitro'r holl leoliadau sydd ar ein llwybr gorfodi er mwyn olrhain eu cynnydd a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal. Gwnaethom arolygu 46 o wasanaethau fwy nag unwaith i sicrhau bod gwelliannau priodol wedi'u gwneud. Lle na welsom welliant digonol, gwnaethom atgyfeirio'r gwasanaeth at ein panel gorfodi. Roedd llai o atgyfeiriadau y flwyddyn hon, gan adlewyrchu effaith ymyrraeth gynnar effeithiol, gwaith partneriaeth cryfach gydag awdurdodau lleol a chyrff ymbarél, a chyfarfodydd ansawdd.

Gwnaethom atal naw gwasanaeth, yn bennaf am fod ymchwiliadau gan yr heddlu ac ymchwiliadau diogelu'n mynd rhagddynt. Daethpwyd ag un cyfnod atal i ben; gwnaeth dau wasanaeth ganslo eu cofrestriad yn wirfoddol wedi hynny, ac roedd chwe achos yn parhau i fynd rhagddynt ar 31 Mawrth 2026. Gwnaethom ganslo cofrestriad tri gwasanaeth ar ôl iddynt fethu ag ymgysylltu ag AGC dros gyfnod hir. Yn ein cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid yn y sector, mae anawsterau wrth recriwtio a chadw staff



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

a hyfywedd ariannol yn themâu sy'n codi'n gyson. Er
bod y pwysau uniongyrchol ar ôl y pandemig wedi
lleddfu, mae adborth yn awgrymu bod darparwyr yn
parhau i fod yn bryderus ynghylch pwysau o ran
costau a chyllid.

Hefyd, gwnaethom ganfod tystiolaeth nad yw rhai
darparwyr yn cynnal gwiriadau addasrwydd amserol
ar staff bob amser, a all adlewyrchu pwysau recriwtio
a chadw mewn marchnad lafur gystadleuol. Rydym
yn monitro'r materion hyn drwy arolygu a'n dull
rheoleiddio ehangach a arweinir gan wybodaeth.

Mae hwyluso cymorth priodol i blant ag Anghenion
Dysgu Ychwanegol hefyd yn parhau i fod yn heriol i
rai darparwyr.

Ymarfer gwerth ei rannu

Pan fyddwn yn nodi enghreifftiau o ymarfer sy'n
arbennig o effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar
blant, byddwn yn gofyn i ddarparwyr roi mwy o
wybodaeth i ni am yr hyn y maent yn ei wneud a sut
mae'r plant yn eu gofal wedi cael budd o hynny.
Rydym yn rhannu'r [enghreifftiau hyn o ymarfer gwerth
ei rannu](#) ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau
cymdeithasol er mwyn annog darparwyr eraill i
ystyried sut y gellir rhoi'r gwersi hyn ar waith yn eu
lleoliadau eu hunain.

Themâu o'n hadroddiad ar ymarfer gwerth ei rannu

Ym mis Mawrth gwnaethom gyhoeddi [Gwersi o
ymarfer gwerth ei rannu - gofal plant a chwarae](#) a
nododd bedair thema gyffredin:

- **Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n
ystyriol o emosiynau:** Roedd y lleoliadau cryfaf yn
rhoi blaenoriaeth i lesiant emosiynol plant.
Roeddent yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, yn
hyderus a'u bod yn cael eu cynnwys, ac yn eu
cefnogi i ddeall teimladau, meithrin cydberthnasau
a datblygu'n gadarnhaol.
- **Cynhwysiant ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol:**
Roedd darparwyr da yn gwneud i blant a
theuluoedd deimlo'n gartrefol drwy werthfawrogi
eu hunaniaethau, eu diwylliannau, eu hieithoedd
a'u cefndiroedd. Roeddent yn defnyddio dulliau
cynhwysol, gwrth-hiliol ac wedi'u personoli mewn
ymarfer bob dydd gan helpu plant a theuluoedd i
deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u deall.
- **Defnydd arloesol o'r amgylchedd:** Roedd llawer o
ddarparwyr yn defnyddio ardaloedd awyr agored
a chysylltiadau cymunedol yn dda. Roedd
chwarae ym myd natur yn helpu plant i ddysgu,
archwilio a magu hyder, tra bo gweithgareddau
cymunedol yn helpu i ddatblygu empathi ac
ymwybyddiaeth gymdeithasol.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

- **Ymarfer myfyriol a bwriadus:** Nid oedd darparwyr yn gwneud pethau oherwydd eu bod wedi'u gwneud erioed – roeddent yn arsylwi, yn myfyrio, yn addasu ac yn gwella. Roeddent yn defnyddio adnoddau fel y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i lywio ymarfer a gwella profiadau plant.

Astudiaeth achos: ysgol goedwig, Conwy

Mae ysgol goedwig yng Nghonwy yn defnyddio dysgu yn yr awyr agored dan arweiniad y plentyn lle mae gan blant y rhyddid i archwilio'n greadigol wrth ddysgu am risg a diogelwch. Mae llawer o blant yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddarganfod rhywbeth newydd bob tro. Mae'r dull yn meithrin gwydnwch a hyder drwy weithgareddau corfforol fel dringo coed a datrys problemau creadigol, gan gynnwys arbrofi gyda deunyddiau i wneud sleidiau mwd yn gyflymach. Maent hefyd yn cael sgysiau diogelwch ac yna gyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd.

“Y peth gorau am yr ysgol goedwig yw gweld plentyn yn cyrraedd yn nerfus ac yn gadael yn fwdlyd, yn gwenu ac yn falch o'r hyn y mae wedi'i gyflawni.”

Darllenwch [astudiaeth achos ymarfer gwerth ei rannu'r ysgol goedwig](#).

Cyfarfodydd ansawdd

Caiff cyfarfodydd ansawdd eu cynnal ar-lein rhwng arolygydd a darparwr. Sgysiau proffesiynol yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar welliant a chanlyniadau a chânt eu cynnal rhwng arolygiadau ffurfiol. Y flwyddyn hon, gwnaethom gyfarfod â 369 o wasanaethau a ddefnyddiodd y cyfarfodydd hyn i fyfrio ar eu hymarfer. Rhoddodd y cyfarfodydd gyfle i ddarparwyr ddweud wrthym am y gwelliannau a wnaed ers eu harolygiad diwethaf a rhannu unrhyw feysydd eraill y maent wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu gwella. Roeddem yn gallu cyfeirio at adnoddau defnyddiol.

Roedd y cyfarfodydd ansawdd yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn rhoi sicrwydd i ni ynghylch trefniadau'r lleoliadau ar gyfer hunanfyfrio a gwelliant parhaus. Dim ond wyth a arweiniodd at ganlyniad anfoddhaol lle nad oedd y darparwr yn gallu ein sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer gwella neu lle gwnaethom nodi risgiau posibl i ddiogelwch neu lesiant plant. Yn yr achosion hyn, gwnaethom gynnal arolygiad llawn o'r lleoliad yn gynharach.

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- **Gwasanaethau gofal plant
a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Dyma rai enghreifftiau o adborth gan ddarparwyr:

“

*“Mor braf cwrdd ag Arolygydd y tu allan i
arolygiad a chael trafodaeth dda gan fod gan
bob un ohonom yr un nodau.”*

*“Mae'r cyfarfod gyda'r Arolygydd yn addysgiadol
iawn a chawsom gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau
am y lleoliad. Rhoddodd yr arolygydd adborth ar
ein hadolygiadau o ansawdd y gofal a oedd yn
llawn gwybodaeth ac yn galonogol. Mae cael y
math hwn o gymorth a sicrwydd o fudd enfawr i'r
lleoliad. Diolch yn fawr oddi wrth y tîm.”*

*“Rhoddodd y cyfarfod hwn gyfle gwych i ni
drafod ein harolygiad diwethaf eto a rhannu'r
hyn rydym wedi'i roi ar waith i barhau i wella.
Rwy'n credu y bydd hyn o fudd i gydberthynas
waith y darparwr/arolygydd hefyd ac yn creu
arolygiadau mwy hamddenol.”*

”

Cynadleddau ansawdd

Digwyddiadau blynyddol i ddarparwyr gofal plant
a chwarae ledled Cymru yw cynadleddau ansawdd.
Eu nod yw:

- arddangos ymarfer cadarnhaol o bob rhan o'r sector
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch
arolygu a datblygiadau rheoleiddiol
- archwilio themâu a heriau cyffredin
- creu cyfleoedd i ddarparwyr ddysgu oddi wrth ei
gilydd
- rhoi llais uniongyrchol i'r sector wrth lunio cymorth
yn y dyfodol.

Mae pob cynhadledd yn cynnwys enghreifftiau ymarferol
o leoliadau sy'n perfformio'n dda, sesiwn holi ac ateb,
diweddariadau polisi, a gwybodaeth o Gyfarfodydd
Ansawdd. Maent hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth
gasglu adborth gan ddarparwyr sy'n llywio cymorth i
wella yn y dyfodol.

Thema'r gynhadledd y flwyddyn hon oedd:

- Diwygio'r fframwaith arolygu
- Enghreifftiau o ymarfer gwerth ei rannu
- Newidiadau o fewn y sector

Dyma rai enghreifftiau o adborth gan y rhai a oedd
yn bresennol:

*“Cynhadledd ffantastig, syniadau gwych ac rwy'n
teimlo'n hyderus y gallaf ddefnyddio'r wybodaeth i
gefnogi ein lleoliad. Diolch.”*

*“Roedd yn ddigwyddiad cefnogol, llawn gwybodaeth
ac yn gyfle i ddathlu – ffordd hyfryd o'n hysbrydoli a'n
hannog i barhau i ymdrechu i wella er budd ein rhai
bach.”*



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ansawdd ein gwaith

Adborth ar ein gwaith

Yn yr un ffordd rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu sicrhau ansawdd eu gwasanaeth a gwella'n barhaus, mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd. Mae sawl peth yn ein helpu i fyfrio a dysgu:

- Holiaduron adborth ar ôl arolygiad ac ar ôl cofrestru
- Cwynion
- Ymateb i adroddiadau arolygu
- Sylwadau
- Tribiwnlysoedd safonau gofal.

Adborth ar ôl arolygiad ac ar ôl cofrestru

Ar ôl pob cofrestriad ac arolygiad, byddwn yn rhannu arolwg yn ceisio adborth gan ddarparwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd 503 o arolygon adborth ar ôl arolygiad (cyfradd ddychwelyd o 23%) a dychwelwyd 41 o holiaduron adborth ar ôl cofrestru gyda 99% o'r ymatebion yn dangos bod ein gwaith cofrestru ac arolygiadau wedi cael eu cynnal yn unol â'n gwerthoedd. Rydym yn cydnabod bod y gyfradd ddychwelyd yn is nag yr hoffem ac rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn casglu adborth.



Yr hyn y dywedodd darparwyr wrthym



Roedd y profiad cyffredinol o'r broses o wneud cais yn broffesiynol, yn gefnogol ac yn adeiladol o'r dechrau i'r diwedd. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn glir, yn drylwyr ac yn hawdd ei ddeall a oedd yn golygu bod cyrraedd y safonau gofynnol yn syml. Roedd y penderfyniadau a'r argymhellion yn deg, yn gymesur a chawsant eu hesbonio'n dda, roedd y cyfathrebu'n amserol ac yn gyson drwyddi draw. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r dull cadarnhaol a chefnogol a ddefnyddiwyd yn fawr. Roeddwn yn teimlo eu bod yn gwrando arnaf, yn fy neall a chefais fy annog i drafod fy model busnes mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r canllawiau a ddarparwyd, yn enwedig o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, wedi cryfhau'r gwasanaeth ac wedi rhoi hyder i mi wrth symud ymlaen. Ar y cyfan, roedd y broses yn teimlo'n gydweithredol yn hytrach nag yn wrthwynebus.

Roedd y broses arolygu mor hyfryd ag y gallai fod. Roedd Arolygydd B yn broffesiynol, yn ddymunol ac yn galonogol cyn ac yn ystod fy arolygiad. Esboniodd y broses arolygu'n llawn, beth fyddai'n digwydd a'r broses ar ôl yr arolygiad. Yn ystod yr ymweliad, ymgysylltodd â



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

*mi, y plant a'r rhieni fel ei gilydd gan wneud i
bawb deimlo'n gyfforddus. Hwn oedd fy
arolygiad cyntaf ac roedd yn brofiad cadarnhaol
iawn. Diolch.*

*Roedd yn bleser pur croesawu'r Arolygydd i'r
cartref. Roedd yr Arolygydd yn barchus, yn
drylwyr ac yn hawdd mynd ato. Rhoddwyd
amser i'n preswylwyr, y staff, aelodau o
deuluoedd a gweithwyr proffesiynol a oedd yn
ymweld â'r gwasanaeth os oeddent am siarad
â'r Arolygydd ac roedd pawb am wneud!*

*Drwy gydol yr arolygiad, dangosodd Arolygydd
C ddiddordeb gwirioneddol yn ein gwasanaeth
a'n gwerthoedd. Gwrandawodd yn weithredol
ar ein tîm a dangosodd werthfawrogiad o'r
gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi oedolion yn
y gymuned. Arweiniodd ei dealltwriaeth o'n
hethos at ddeialog ystyrlon, a chreodd
awyrgylch lle roeddem yn teimlo'n gyfforddus
yn rhannu ein cynnydd a'r meysydd rydym yn
parhau i'w datblygu.*

*Roedd tîm arolygu'r awdurdod lleol yng nghanol
y gwasanaeth. Gwnaeth hyn helpu i ddangos
gweithwyr wrth eu gwaith a chael ymdeimlad o
ddiwylliant y gwasanaeth a helpodd i gefnogi
sgysiau naturiol â'r staff. Ymgysylltodd AGC yn
llawn ag ystod eang o staff a gymerodd ran
weithredol ac a oedd yn teimlo bod y
cyfweiliadau a'r trafodaethau'n fuddiol iawn.
Dydwn i ddim yn gwybod sut y gwnaethant*

*lwyddo i wneud cymaint mewn tridiau, ond ni
wnaethant i'r staff, y plant na'u teuluoedd
deimlo eu bod yn cael eu rhuthro ar unrhyw
adeg a gwnaethant wrando o ddifrif ar beth
oedd yn cael ei ddweud. Creodd gyffro go iawn
ymhlith y gweithlu, o'r fynedfa yr holl ffordd at y
gwasanaeth ac rwy'n gwybod bod yr uwch-
swyddogion wedi cael llawer o fudd o'r profiad.*



Troednodyn: Defnyddiwyd blaenlythrennau
yn lle enwau arolygwyr er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Awgrymiadau ar gyfer gwella

Roedd rhai holiaduron (11.9%) yn cynnwys awgrymiadau
defnyddiol ar gyfer meysydd i'w gwella, gan gynnwys:

Adborth ar arolygiadau a'r broses gofrestru



*"Gallai'r arolygwyr fod wedi ystyried cwrdd â rhai
rhieni wyneb yn wyneb i gasglu adborth ar sail
un i un."*

*"Roeddem yn teimlo nad oedd yr arolygiad wedi
rhoi digon o amser i arddangos popeth sydd gan
ein lleoliad i'w gynnig, ac rydym yn credu bod
hyn wedi effeithio ar ein gradd gyffredinol. Roedd
gennym dystiolaeth o arfer rhagorol nad oeddem
yn gallu ei rhannu am nad oedd digon o amser."*



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Ansawdd ein gwaith

“

“Rydym wedi canfod bod lefel o anghysondeb rhwng arolygwyr gwahanol. Rydym yn cydnabod yn llwyr fod pawb yn gweithio yn eu ffordd eu hunain ac y gallant ddehongli pethau mewn ffordd wahanol. Fodd bynnag, bu rhai arferion ar waith ers blyneddau lawer heb unrhyw broblemau, ond yn ystod arolygiadau diweddar dywedwyd wrthym fod yr un arferion hyn bellach yn annerbyniol. Gall hyn fod yn rhwystredig, gan fod ein tîm yn ymrwymedig i gynnal safonau uchel a gwneud ein gorau glas. Rydym yn credu bod arolygiadau AGC yn adnodd cymorth gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu a gwella, ond mae'r disgwyliadau gwahanol rhwng arolygwyr yn ei gwneud yn fwyfwy anodd teimlo'n hyderus o ran yr hyn sy'n ofynnol.”

”

Gwneud cais am adolygiad o adroddiadau arolygu

Y flwyddyn hon, gyda mewnbwn gan ddarparwyr ar ein grŵp adolygu, gwnaethom adolygu ein canllawiau a'n proses ar gyfer gwneud cais am adolygiad o adroddiadau arolygu. Mae'r canllawiau diwygiedig, [Gwneud cais am adolygiad o dystiolaeth a chanfyddiadau adroddiadau arolygu \(gan gynnwys graddau\)](#), ar gael ar wefan AGC.

Y flwyddyn hon, cawsom 131 o geisiadau am adolygiad o ganfyddiadau a thystiolaeth (6% o'r holl adroddiadau

a gyhoeddwyd). Gwnaethom ddatrys y rhan fwyaf o'r materion a godwyd ar y cam hwn, a dim ond 26 a symudodd ymlaen i'r cam apelio lle mae un o reolwyr annibynnol AGC yn adolygu ein penderfyniad gwreiddiol.

Cwynion

Cawsom 23 o gwynion amdanom. Cafodd y rhan fwyaf eu datrys yn anffurfiol, ac arweiniodd naw ohonynt at ymchwiliad ffurfiol. Arweiniodd yr hyn y gwnaethom ei ddysgu o'r cwynion at ddiwygio ein prosesau ar gyfer pryderon ac arolygu.

Sylwadau

Cawsom 16 o sylwadau yn 2025-26, gan gynnwys dau mewn perthynas â'n penderfyniad i wrthod cofrestru gwasanaeth. Mae'n gadarnhaol nodi, ym mhob set o sylwadau ond un (yr oedd wyth ohonynt yn ymwneud ag un darparwr), na wnaeth y penderfynwr annibynnol gadarnhau'r sylwadau. Mae hyn yn dangos bod y dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r hysbysiad yn ddilys a bod ein proses gwneud penderfyniadau yn gyson â'n gwerthoedd.

Gall darparwr hefyd benderfynu gwneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal er mwyn apelio yn erbyn ein penderfyniadau. Mae dau dribiwnlys wedi'u cynnal y flwyddyn hon, a'r ddau ar gyfer gwarchodwyr plant a gafodd eu hatal. Cadarnhaodd y tribiwnlys benderfyniad AGC i atal.





Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Yn 2026 i 2027, byddwn yn parhau i roi uchelgeisiau ac amcanion ein Cynllun Strategol ar waith. Bydd rhannu gwersi a ddysgwyd, gwella dulliau cyfathrebu a dathlu llwyddiant yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n gwaith, ochr yn ochr â'n hymrwymiad i wella data a chyflawniad digidol a gweithredol.



Sicrhau

- Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen adolygu thematig, gan ddechrau gyda diogelu mewn perthynas â phobl mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac yn paratoi ar gyfer themâu yn y dyfodol, gan gynnwys diogelu oedolion a fframweithiau comisiynu.
- Byddwn yn rhoi newidiadau i'r fframwaith arolygu gofal plant a chwarae ar waith ac yn ystyried sut rydym yn cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau gofal cartref.



Gwella

- Byddwn yn parhau i weithio er mwyn helpu darparwyr i wella ansawdd ceisiadau i gofrestru gwasanaethau oedolion a phlant.
- Byddwn yn adolygu ac yn mireinio'r ffordd rydym yn cymryd camau dilynol ac yn parhau i fonitro awdurdodau lleol fel bod ein dyfarniadau'n parhau i fod yn gywir, yn deg ac yn gallu ennyn hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid.
- Byddwn yn adnewyddu strategaeth y gweithlu er mwyn cefnogi gweithlu grymus a gwydn, gan gynnwys cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a mireinio ein gwasanaethau digidol fel bod pobl yn cael gwasanaethau digidol syml a chynhwysol, a bod gan ein staff amgylchedd gwaith digidol modern sy'n eu cefnogi a'u grymuso i wneud eu gwaith gorau.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau thematig ar arolygiadau maethu a mabwysiadu, graddau ar gyfer pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref erbyn hydref 2026, ac yn comisiynu adolygiad annibynnol o effaith ac effeithiolrwydd graddau.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn



Dylanwadu

- Byddwn yn cryfhau gwaith ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, i sicrhau bod ein hargymhellion yn arwain at welliannau gwirioneddol mewn ymarfer a chanlyniadau i bobl.
- Byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl, gyda ffocws clir ar ddeall profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofaluwr a chymunedau amrywiol.
- Byddwn yn ymgorffori ymarfer gwerth ei rannu a chynadleddau ansawdd ar draws gwasanaethau oedolion, plant a gofal plant a chwarae, a byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio'r dulliau hyn yn ein gwaith gydag awdurdodau lleol.
- Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ehangu, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae i blant dan 12 oed, yn rhoi diwygiadau i'r gorchymyn eithriadau ar waith er mwyn dechrau rheoleiddio gwasanaethau i blant dan dair oed, ac yn datblygu cynllun cymeradwyo gwirfoddol ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ar hyn o bryd.
- Byddwn yn parhau i roi newidiadau ar waith sy'n deillio o ddileu elw o ofal plant.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Y gyllideb a ddyrannwyd i ni ar gyfer 2025-26 oedd £17,040,904. Cawsom hefyd gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel y nodir isod.

Tabl 11: Gwybodaeth ariannol AGC, 2025 i 2026

Categori	£
Cyllid	
Y gyllideb graidd a ddyrannwyd	17,040,904
Cyflwyno graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref, a chyflwyno gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig newydd	665,461
Cyllid ar gyfer gofal plant a chwarae	160,894
Cyllid ar gyfer dileu elw o ofal plant	250,613
Cyfanswm y cyllid	18,117,872
Gwariant	
Costau staff, gan gynnwys arolygwyr y telir ffi iddynt	16,085,093
Costau nad ydynt yn ymwneud â staff (contractwyr TGCh, cyfieithu, teleffoni, teithio a chynhaliaeth ac ati)	1,603,355
Cyfanswm y gwariant	17,688,448
Tanwariant ar gyfer 2025 i 2026	429,424

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd £16,085,093 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £1,603,355 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu a rheoleiddio yn cyfrif am 77% o'r costau staff.

Roedd y tanwariant o £429,424 yn 2025 i 2026 oherwydd y nifer uchel o swyddi gwag heb eu llenwi. Wrth i rolau â blaenoriaeth gael eu llenwi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, caiff costau staff cysylltiedig eu gwireddu ym mlwyddyn ariannol 2026 i 2027.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol


Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Dadansoddiad o wariant

Roedd y dadansoddiad o gyfanswm y gwariant ar gyfer 2025 i 2026 fel a ganlyn:



Dadansoddiad staffio

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff ym mhob tîm yn ôl nifer y bobl a'r nifer cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2026.

Tabl 12: Staffio AGC yn ôl tîm ar 31 Mawrth 2026

Tîm	Nifer y bobl	Nifer cyfwerth ag amser llawn
Swyddfa'r Prif Arolygydd	3	3
Tîm Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant	80	74.94
Tîm Arolygu Gofal Plant a Chwarae	49	46.69
Tîm Arolygu Awdurdodau Lleol	13	13
Tîm Cofrestru a Gorfodi	34	32.13
Tîm Gwasanaethau Cymorth	37	35.34
Tîm Busnes	29	25.86
Cyfanswm	245	230.96

Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Geirfa

Isod ceir esboniad cryno o'r termau a ddefnyddir gennym drwy'r adroddiad hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn gweithio ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Arferion cadarnhaol ac ymarfer gwerth ei rannu – Enghreifftiau o arferion creadigol, arloesol neu arbennig o effeithiol a gaiff eu nodi drwy ein gwaith arolygu a sicrhau sy'n hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol neu ganlyniadau llesiant. Rydym yn cyhoeddi'r enghreifftiau hyn i gefnogi dysgu a gwelliant ar draws y sector.

Arolygu – Rydym yn cynllunio ac yn blaenoriaethu arolygiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym am wasanaethau. Mae'r ymweliad arolygu yn rhan bwysig o'n gwaith. Ein prif ffocws yw profiadau pobl a ph'un a ydynt yn cael gofal a chymorth diogel sy'n eu helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Rydym yn defnyddio llinellau ymholi allweddol o'n fframweithiau arolygu, wedi'u llywio gan hysbysiadau, pryderon a gwybodaeth arall sydd gennym am wasanaeth. Lle y caiff canlyniadau cadarnhaol neu wael eu nodi, rydym yn ymchwilio i achosion sylfaenol hyn.

Cofrestru – Y broses pan fydd gwasanaeth yn cofrestru'n gyfreithlon â ni er mwyn gweithredu yng Nghymru. Rydym hefyd yn rheoli newidiadau i wasanaethau sydd wedi cofrestru eisoes.



Cyfarfod ansawdd – Cyfarfod ar-lein sy'n canolbwyntio ar wella a chanlyniadau rhwng gwasanaeth gofal plant a chwarae ac un o arolygwyr AGC. Caiff ei gynnal rhwng arolygiadau. Mae cyfarfodydd ansawdd yn cynnig cyfle i drafod canlyniadau i blant, myfyrio ar ymarfer, adolygu gwelliannau a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

Gorfodi – Rydym yn gweithredu pan fydd llesiant neu ddiogelwch pobl mewn perygl, gan gynnwys lle mae gwasanaethau'n gweithredu heb gofrestru. Rydym yn defnyddio llwybr gorfodi clir, graddedig a chymesur. Gall hyn gynnwys nodi meysydd i'w gwella, cyhoeddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth lle mae angen gwella ar frys, atal gwasanaethau gofal plant, neu gymryd camau statudol lle bo angen. Yn ein gwaith gydag awdurdodau lleol, rydym yn nodi meysydd i'w gwella, ond nid oes gennym bwerau gorfodi. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi yn ein Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiadau – Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparwyr roi gwybod i ni am ddigwyddiadau a all effeithio ar y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys diogelu, newidiadau o ran rheolaeth, materion amgylcheddol ac anafiadau difrifol sy'n digwydd o fewn y gwasanaeth. Rydym yn adolygu hysbysiadau, yn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu ac yn ystyried patrymau neu dueddiadau wrth gynllunio gweithgarwch arolygu yn y dyfodol.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn

Llesiant – Un o egwyddorion craidd [Deddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach yn unig.
Mae'n cynnwys bod yn ddiogel, cael llais a dewis, a
chael y cymorth cywir, bod yn rhan o gymuned a
chael cyfleoedd i feithrin cydberthnasau, dysgu,
gweithio a sicrhau boddhad personol.

Pryderon – Gall unrhyw un [godi pryder am wasanaeth
gofal](#) ar-lein, drwy e-bost, dros y ffôn neu'n
ysgrifenedig. Caiff pob pryder ei adolygu gan
arolygydd, sy'n penderfynu pa gamau sydd eu hangen.
Pan gaiff pryderon eu codi gan rywun sy'n gweithio
mewn gwasanaeth, 'chwythu'r chwiban' yw'r enw ar
hyn ac mae'n darparu amddiffyniadau cyfreithiol i'r
unigolyn. Nid ydym yn ymchwilio i bryderon unigol, ond
mae'r wybodaeth yn ein helpu i ddeall pa mor dda y
gall gwasanaeth fod yn gweithredu ac mae hyn yn
llywio ein gweithgarwch arolygu.



Crynodeb

Cyflwyniad gan ein
Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Blwyddyn gyntaf ein Cynllun
Strategol ar gyfer 2025-2030

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a
diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi
gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i oedolion
gan awdurdodau lleol
- Gofal cymdeithasol i blant
a phobl ifanc
- Gwasanaethau plant
awdurdodau lleol
- Gwasanaethau gofal plant
a chwarae

Ansawdd ein gwaith


Edrych ymlaen at 2026 i 2027

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol

Geirfa

**Rhowch wybod i ni beth yw
eich barn**

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ar
ddefnyddioldeb ein hadroddiad blynyddol.
Byddem yn ddiolchgar pe gallech [gwblhau ein
harolwg byr am yr adroddiad blynyddol hwn](#).



Ceir data mwy manwl a diweddar na'r rhai a ddefnyddir
yn yr adroddiad hwn yn ein [hoffer data ar-lein](#) ac
yn [natganiad ystadegau blynyddol AGC](#).

Gellir darllen cyd-destun ehangach am wasanaethau
cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn
flaenorol yn [Adroddiad Cyflwr y Genedl 2024-25 ar
wefan Llywodraeth Cymru](#).

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

0300 7900 126

AGC@llyw.cymru | arolygiaethgofal.cymru



Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2025-2026

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



© Hawlfraint y Goron 2026 WG55400

ISBN Digidol 978-1-80853-431-7

